



monmouthshire  
sir fynwy

CYNGOR SIR FYNWY

ASESIAD LLETY SIPSIWN A THEITHWYR

2021 - 2026

## **Cynnwys**

1.0	Crynodeb gweithredol	3
2.0	Cefndir	4
3.0	Canfyddiadau Asesiadau blaenorol a dadansoddiad o'r data presennol	7
4.0	Methodoleg	9
5.0	Canfyddiadau'r arolwg	12
6.0	Asesu anghenion llety	14
7.0	Asesu anghenion llety yn Sir Fynwy	15
8.0	Yr angen ar leiniau Sipsiwn a Theithwyr	15
9.0	Cyfanswm angen ar gyfer Sir Fynwy	19
10.0	Darpariaeth safle tramwy/safle stopio mewn argyfwng	21
11.0	Yr angen am leiniau i siewmyn teithiol	21
12.0	Casgliadau	21
13.0	Camau nesaf	21

## **Atodiadau**

Atodiad 1:	Rhan 3, Deddf Tai (Cymru) 2014	23
Atodiad 2:	Rhan 5, A56, Deddef Cartrefi Symudol (Cymru) 2013	26
Atodiad3:	Holiadur	26
Atodiad 4:	Cynllun Datblygu Lleol, Polisi 8, Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn	32
Atodiad 5:	Diffiniad o Dermau a Chysyniadau Allweddol	33
Atodiad 6:	Nodyn Technegol ORS ar Cyfraddau Ffurio a Thwf Sipsiwn a Theithwyr	35

## **List of Tables**

Table 1:	Welsh Government Checklist	10
Table 2:	Total number of authorised sites in Monmouthshire as at March 2020	16
Table 3:	Additional Pitches Needed in Monmouthshire from 2020-2033	19

## **Rhestr Ffigurau**

Ffigur 1:	Gwersylloedd diawdurdod – nifer digwyddiadau yn ôl mis a blwyddyn	8
Ffigur 2:	Gwersylloedd diawdurdod – nifer carafanau yn ôl mis a blwyddyn 2013 - 2019	8
Ffigur 3:	Llety adeg yr holiadur	12

Ffigur 4:	Cyfansoddiad aelwydydd	13
Ffigur 5:	Cyfansoddiad aelwydydd yn ôl oedran	13
Ffigur 6:	Ethnigrwydd aelodau aelwydydd	13
Ffigur 7:	Addasrwydd llety presennol	14

## **1.0 Crynodeb gweithredol:**

- 1.0.1 Fe wnaeth Opinion Research Services Cyf. (ORS) gynorthwyo Adran Tai a Chymunedau Sir Fynwy i baratoi'r asesiad hwn fel rhan o gomisiwn ehangach i gefnogi paratoi Aseidiadau newydd o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (yr 'Asesiad') ar gyfer Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen.
- 1.0.2 Mae rhan tri Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru i gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a lle mae'r Asesiad yn dynodi angen na chaiff ei ddiwallu ar gyfer lleiniau, i wneud darpariaeth i ateb yr angen hwnnw.
- 1.0.3 Dan y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal aseidiadau bob pum mlynedd. Gwnaeth y Cyngor ei asesiad cyntaf yn 2015 yn cwmpasu cyfnod 2016-2021. Hwn yw ail asesiad y Cyngor a bydd yn rhedeg yn gydamserol gyda'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033, gan roi sylfaen tystiolaeth cadarn a chyfredol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.
- 1.0.4 Mae proses yr Asesiad yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, 'Cynnal Aseidiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr' a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015, Oherwydd y cyfyngiadau amser wrth gadw at amserlen y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a'r nifer fach o aelwydydd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn yn y sir, cytunwyd na fyddai'r grŵp llywio a gynullwyd ar gyfer Asesiad 2016 yn cael ei ailgynnull ar gyfer yr Asesiad presennol nes y byddai drafft ar gael.
- 1.0.5 Fodd bynnag rhoddodd y grŵp llywio wybodaeth am Sipsiwn a Theithwyr y gwyddent amdanynt a, lle'n berthnasol, hysbysu aelwydydd fod Asesiad yn cael ei gynnal a gwahoddwyd aelwydydd i gymryd rhan.
- 1.0.6 Cynhaliwyd y cyfweiliadau gan swyddogion o'r Gwasanaeth Tai a Chymunedau gyda chymorth eiriolwyr teulu un o'r aelwydydd. Mae holiaduron a gwblhawyd gan aelwydydd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn yn llywio casgliadau ac argymhellion yr Asesiad. Fe wnaeth yr aelwydydd a ddynodwyd gan aelodau'r grŵp llywio gwblhau'r holiaduron yn ystod misoedd Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2019.
- 1.0.7 Dyddiad llinell sylfaen yr holl ddata a gwybodaeth arall yw 31 Mawrth 2020.
- 1.0.8 Cyn belled ag mae'r Cyngor yn gwybod, dim ond dwy aelwyd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn yn Sir Fynwy wrthododd gymryd rhan yn yr Asesiad.

### **1.1.0 Crynodeb o gasgliadau yr Asesiad:**

- 1.1.1 Canfu'r asesiad fod angen na chaiff ei ddiwallu o naw llain yn ystod cyfnod asesu 2020 i 2025.
- 1.1.2 Tu hwnt i 2025, mae angen pellach na chafodd ei ddiwallu o bedair llain dros weddill cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (2026 – 2033).
- 1.1.3 Nid oes angen llain barhaol ar gyfer tramwy / stopio yn Sir Fynwy.
- 1.1.4 Dylai'r Cyngor ystyried defnyddio trefniadau goddefiant tymor byr neu drefniadau stopio wedi eu negodi i ddelio gyda gweryslyoedd tymor byr.

## **1.2.0 Y camau nesaf:**

- 1.2.1 Bydd y Cyngor yn ceisio gwneud darpariaeth ar gyfer safleoedd priodol i ddiwallu angen a ddynodwyd ond na chaiff ei ddiwallu drwy weithio gydag aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr i sefydlu eu dewisiadau ar gyfer darpariaeth safleoedd, hynny yw, safleoedd preifat neu gyhoeddus.
- 1.2.2 Mae canfyddiadau proses yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn awgrymu fod dymuniad o fewn llawer o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr am ddarpariaeth safle preifat yn Sir Fynwy. Felly bydd y Cyngor yn gweithio gyda ac yn cefnogi aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr i ddynodi a datblygu safleoedd preifat hyfw i drin yr angen a ddynodwyd ond na chaiff ei ddiwallu yn unol â fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.
- 1.2.3 Byddai angen ystyried dynodi a dyrannu safle(oedd) yr awdurdod lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr drwy broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd pe byddai'r angen am safle cyhoeddus yn dod yn amlwg oherwydd na ellir cyflawni dewis y gymuned o safleoedd preifat.
- 1.2.4 Caiff yr angen a ddynodwyd ar gyfer manau aros dros dro ei ystyried ar sail ranbarthol fel rhan o'r broses sy'n datblygu ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol.

## **2.0 Cefndir:**

- 2.0.1 Mae rhan tri Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi nifer o ddyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i benderfynu anghenion llety eu cymuned Sipsiwn a Theithwyr. Mae Adran 101 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal adolygiad bob pum mlynedd. Yn ystod y cyfnod adolygu, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiad ac adrodd ei ganfyddiadau i Weinidogion Cymru er cymeradwyaeth. Mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys crynodeb o'r broses ymgynghori; yr ymatebion a gafwyd ac unrhyw angen llety a ddynodwyd gan yr Asesiad (Atodiad 1).
- 2.0.2 Pe dynodid angen, mae Adran 103 y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i weithredu ei bwerau dan Ran Pump Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 i ddarparu safleoedd lle gellir rhoi cartrefi symudol (Atodiad 2).
- 2.0.3 Dan Adran 104 y Ddeddf, os yw Gweinidogion Cymru yn fodlon y methodd awdurdod tai lleol gydymffurfio gyda'u dyletswydd dan Adran 103, gallant gyfeirio'r awdurdod i weithredu'r pwerau hynny dan Ran Pump Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) i ateb yr anghenion a ddynodwyd yn yr asesiad.
- 2.0.4 Fel awdurdod tai mae ardal weinyddol Cyngor Sir Fynwy yn cynnwys ardal cynllunio Sir Fynwy a hefyd ran o ardal awdurdodaeth cynllunio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Felly bydd yr Asesiad yn rhoi tystiolaeth ar gyfer prosesau adolygu yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a Chynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Fynwy a hefyd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<sup>1</sup>. Lle mae hynny'n briodol, bydd Cyngor Sir Fynwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cydweithio i gyfarch unrhyw angen nas diwallwyd a ddynodwyd yn yr Asesiad.

---

<sup>1</sup> Paraagraff 5,4, Cynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr, Llywodraeth Cymru

## 2.1 Diben:

- 2.1.1 Diben yr Aseiad yw i'r Cyngor ddeall anghenion cyfredol a dyfodol Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn yn y Sir. Bydd hyn yn ei dro yn llywio Adroddiadau Monitro Blyneddol Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'u Cynlluniau Datblygu Lleol Newydd. Bydd hefyd yn rhoi unrhyw dystiolaeth os oes angen safleoedd tramwy neu fannau stopio argyfwng.
- 2.1.2 Bydd canfyddiadau'r Aseiad hefyd yn rhoi atodiad ar gyfer Aseidiadau Marchnad Tai Lleol Sir Fynwy yn y dyfodol.

## 2.2 Ystyriaethau polisi a chanllawiau:

- 2.2.1 Y prif ganllawiau ar gyfer paratoi Aseiad yw "Cynnal Aseidiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr (2015)".
- 2.2.2 Mae'r canllawiau yn cynnwys holiadur cyffredinol y dylai pob awdurdod lleol ei ddefnyddio i sicrhau tebygrwydd ar gyfer dibenion cymharu ar draws pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru (gweler Atodiad 3).
- 2.2.3 Mae pump adran yn yr holiaduron. Mae Adran A i D yn ymwneud yn bennaf gydag anghenion llety sy'n codi yn yr ardal lle cynhelir yr Aseiad. Mae Adran E yn ymwneud â darparu safleoedd tramwy yn yr ardal lle cynhaliwyd yr aseiad ond hefyd mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae'r is-adrannau dilynol yn rhoi disgrifiad byr o'r holiadur:
- Adran A – yn delio gyda threfniadau llety presennol aelodau'r gymuned a gymerodd ran yn yr aseiad.
  - Adran B – yn edrych ar strwythur teuluoedd.
  - Adran C – yn holi am nodau a chynlluniau.
  - Adran 4 – yn hysbysu'r awdurdod leol am dwf disgwylidig mewn teuluoedd a'r angen sy'n debyg o ddiwydd o fewn y pum mlynedd nesaf fel y gallant ddeall galw'r dyfodol a chynllunio yn unol â hynny.
  - Adran E – yn ymwneud gyda'r angen am safleoedd tramwy a'u hargaeledd neu ddiffyg argaeledd ledled Cymru.
- 2.2.4 I osgoi unrhyw broblemau llythrennedd a chyfranogiad isel, mae'r canllawiau'n argymhell y dylai'r holiadur gael ei lenwi wyneb-i-wyneb yn hytrach na'i anfon drwy'r post.
- 2.2.5 Cafodd nifer o gylchlythyrau eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cymru a gan y Swyddfa Gymreig cyn datganoli<sup>2</sup> sy'n rhoi arweiniad i awdurdodau lleol ar agweddau cynllunio darparu safleoedd, asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ac i gael polisiâu ar gyfer darpariaeth safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn eu cynlluniau datblygu. Fe wnaeth cyflwyno cylchlythyr yn 2018 ddisodli a chanslo'r cylchlythyrau a nodir uchod <sup>3</sup>.

---

<sup>2</sup> Cylchlythyr 30/2007 "Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr", Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007; Cylchlythyr 78/91 Siewmyn Teithiol", y Swyddfa Gymreig 1991; Cylchlythyr 76/94 "Polisi Safleoedd Sipsiwn a Gwersylla heb Awdurdod" Swyddfa Gymreig 1994

<sup>3</sup> Cylchlythyr 005/2018 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2018

- 2.2.6 Canllawiau eraill sydd ar gael i awdurdodau lleol yw “Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr” a “Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru”, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015.
- 2.2.7 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynghori fod angen i awdurdodau lleol asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ac i gael polisiâu ar gyfer darpariaeth safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn eu cynlluniau datblygu<sup>4</sup>.
- 2.2.8 Mabwysiadodd Cyngor Sir Fynwy ei Gynllun Datblygu Lleol ym mis Chwefror 2014. Mae'r Cynllun hwn yn nodi polisiâu'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnydd tir yn y dyfodol yn ei ardal (ac eithrio'r rhan sydd o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Mae'r fframwaith ar gyfer asesu cynigion i ddiwallu anghenion llety Sipsiwn, Theithwyr a Siewmyn Teithiol drwy ddarparu safleoedd, p'un ai ar gyfer defnydd parhaol, tramwy neu argyfwng) ar gael ym Mholisi 8 y Cynllun (gweler Atodiad 4).
- 2.2.9 Mabwysiadodd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ei Gynllun Datblygu Lleol ym mis Rhagfyr 2013. Mae'r Cynllun yn dyrannu tir yn ymyl Parc Menter Aberhonddu ar gyfer darparu safle parhaol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac yn nodi meini prawf polisi ar gyfer ystyried pob safle carafanau Sipsiwn a Theithwyr.
- 2.2.10 Yn ychwanegol at ystyriaethau cynllunio a chylchlythyrau canllawiau, mae'n briodol nodi pe dynodid angen a bod angen safle bod grant cyfalaf safle ar gael i awdurdodau lleol i dalu am y costau sy'n gysylltiedig gydag adeiladu safle. Fodd bynnag, ni all y grant dalu'r holl gostau cysylltiedig gydag adeiladu safle, tebyg i gaffael tir, gwaith cyn gwneud ceisiadau cynllunio ac astudiaethau dichonolrwydd.

### **2.3 Diffiniad o dermau allweddol:**

#### **2.3.1 Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn**

- Mae'r asesiad hwn yn defnyddio'r diffiniad sydd yn Adran 108 Deddf Tai (Cymru) 2014.
  - (a) Personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys
    - (i) Pobl sydd ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, a
    - (ii) aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio), a
  - (b) unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.
- Mae'r diffiniad hwn yn ddigon eang fel ei fod yn cynnwys grwpiau tebyg i Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig a hefyd grwpiau eraill sy'n dilyn ffordd o fyw nomadig tebyg i Siewmyn Teithiol a Theithwyr Newydd.
- Mae hefyd yn ddigon eang i gynnwys y rhai nad ydynt bellach yn dilyn ffordd o fyw nomadig ac yn byw mewn tai ond a fyddai oherwydd gwrthwynebiad diwylliannol yn hoffi dychwelyd i fyw mewn cartref symudol pe byddai safleoedd yn dod ar gael yn y dyfodol.

---

<sup>4</sup> Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10: paragraff 4.2.35

2.3.2 Mae mwy o wybodaeth ar gael yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr:

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/undertaking-gypsy-and-traveller-accommodation-assessments.pdf>

2.3.3 Gweler Atodiad 5 i gael disgrifiad o'r holl dermau a chysyniadau allweddol eraill a ddefnyddir yn yr Asesiad.

### **3.0 Canfyddiadau Asesiadau blaenorol a dadansoddiad o'r data presennol:**

3.0.1 Mae'r Cyngor wedi cynnal dau Asesiad blaenorol, y cyntaf yn 2009 a'r ail yn 2015.

3.0.2 Fe wnaeth y Cyngor gomisiynu Roger Tym & Partner ac Opinion Research Services i ddarparu Astudiaeth o Anghenion Llety a Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn 2009. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad na chafodd unrhyw anghenion ychwanegol eu dynodi heblaw'r anghenion hynny yr oedd y Cyngor yn gwybod amdanynt drwy safle preifat presennol (un llain) a chais cynllunio am bedair llain a wrthodwyd i ddechrau ond a gafodd wedyn ganiatâd cynllunio ar apêl ar gyfer cynllun diwygiedig yn cynnwys dwy lain.

3.0.3 Hefyd, gan na chafodd unrhyw angen penodol arall ei ddynodi, daeth yr astudiaeth i'r casgliad nad oedd angen canfod unrhyw ddarpariaeth newydd arall drwy ddyraniadau safleoedd y Cynllun Datblygu Unigol ac y gallai cynigion ar gyfer safleoedd ychwanegol gael eu hystyried drwy bolisi seiliedig ar feini prawf y Cynllun Datblygu Lleol H8 Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a Siewmyn.

3.0.4 Cafodd yr ail asesiad a gynhaliwyd yn 2015 ei gwblhau yn fewnol. Daeth i'r casgliad:

- Bod angen wedi ei ddynodi ar gyfer wyth llain hyd at 2021, yn seiliedig ar orlenwi, mediant heb awdurdod a'r tebygrwydd o wrthwynebiad diwylliannol i dai confensiynol
- Byddai diwygio amod meddiannaeth gydol oes yn gysylltiedig gyda chaniatâd cynllunio a roddwyd am safle preifat presennol yn cyfarch un o'r anghenion na chafodd ei ddiwallu ar gyfer wyth llain.
- Ni ddynodwyd fod angen safle tramwy oherwydd nifer isel y gweryslyoedd diawdurdod yn y Sir (paragraffau 2.18 a 5.20);
- Ni ddynodwyd bod angen iard i Siewmyn Teithiol.

### **3.1 Dadansoddiad o'r data presennol – data poblogaeth**

3.1.1 Mae poblogaeth aelwydydd yn Sir Fynwy sy'n disgrifio eu hunain fel bod o ethnigrwydd Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn isel iawn. Dengys cyfrifiad 2011 fod chwe aelwyd wedi uniaethu fel Teithwyr Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, 0.006% o'r boblogaeth.

3.1.2 Dadleuir fod y ffigur yn tan-gynrychioli gwir nifer yr aelwydydd yn Sir Fynwy gan fod y cyfrifiad yn dibynnu ar unigolion yn hunan-ddosbarthu eu hethnigrwydd. Yn genedlaethol, mae cydnabyddiaeth fod amharoddrwydd o fewn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr i aelwydydd ddatgelu eu hethnigrwydd oherwydd ofn gwrthwynebiad neu ymddygiad cam-driniaeth hiliol wedi ei gyfeirio atynt.




3.1.3 Dynododd Asesiad 2015 fod 11 aelwyd yn byw yn Sir Fynwy oedd yn disgrifio eu hunain fel bod o ethnigrwydd Sipsiwn a Theithwyr, cynnydd o bron 84% ar ffigur cyfrifiad 2011.

### 3.2 Gwersylloedd diawdurdod a darpariaeth llety presennol


3.2.1 Mae'r System Cyfrif Pob Carafán yn ffynhonnell ddata allweddol yn ymwneud â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae hyn yn ddull casglu data seiliedig ar y we. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi manylion yr holl safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal yn cynnwys gwersylloedd diawdurdod wrth iddynt ddigwydd. Mae hyn yn disodli'r dull blaenorol o gyfrif carafanau, oedd yn cyfrif carafanau yn hytrach nag aelwydydd. Yn ychwanegol, oherwydd y cynhaliwyd y dull cyfrif blaenorol ar ddyddiad penodol, nid oedd yn cofnodi unrhyw wersylloedd diawdurdod tu allan i'r dyddiad hwn.

3.2.2 Bu 16 gwersyll diawdurdod gan y gymuned deithiol ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno pan oeddent yn teithio drwy'r Sir rhwng 2013-2020. Mae'r graffiau dilynol yn dangos nifer y digwyddiadau yn ôl mis a blwyddyn (ffigur 1) a chyfanswm nifer y carafanau bob blwyddyn (ffigur 2).

Ffigur 1: Gwersylloedd diawdurdod – nifer digwyddiadau yn ôl mis a blwyddyn



Ffigur 2: Gwersylloedd diawdurdod – Nifer carafanau yn ôl mis a blwyddyn



\* Data anghyflawn ar gyfer Mai ac Awst 2014. Mae'r ffigur hwn yn nominol ac mae'n debygol o fod yn is na'r gwir ffigur..

3.2.3. O gymharu ag awdurdodau eraill, mae'n amlwg mai poblogaeth isel iawn o Sipsiwn a Theithwyr sydd gan Sir Fynwy.

3.2.4 Er fod amlder a nifer y carafanau yn isel, mae tystiolaeth o holiadur yr Asesiad o ac o drafodaethau gyda theuluoedd sydd wedi stopio yn Sir Fynwy fod angen safle stopio

tramwy / dros dro wrth ochr coridor yr M4 neu ar y brif lwybr o'r Gogledd/De drwy'r Sir.

- 3.2.5 Ar hyn o bryd nid oes gan Sir Fynwy unrhyw safleoedd a gaiff eu rhedeg gan yr awdurdod lleol, naill ai'n breswyl neu dramwy.
- 3.2.6 Ym Mawrth 2020 roedd gan Sir Fynwy dri safle awdurdodedig mewn eiddo preifat.
- 3.2.7 Bu tri chais cynllunio ers yr Asesiad blaenorol yn 2015 ar dir sy'n berchen ac yn cael ei feddiannu gan aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr. Cafodd un cais ei gymeradwyo. Roedd y ddau gais arall yn aflwyddiannus a rhoddwyd hysbysiadau gorfodaeth ar yr aelwydydd i adael y tir. Adeg ysgrifennu hyn, roedd y ddau ymgeisydd aflwyddiannus yn mynd drwy'r weithdrefn apêl.
- 3.2.8 Nid oes unrhyw ganiatâd cynllunio yn eu lle adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

## **4.0 Methodoleg**

### **4.0.1 Grŵp llywio'r prosiect**

4.02 Grŵp llywio'r prosiect oedd yn gyfrifol am gymryd perchnogaeth o'r Asesiad.

4.03 Ei gyfrifoldebau allweddol oedd:

- Dynodi asiantaethau eraill perthnasol y dylid gofyn iddynt gymryd rhan yn y grŵp llywio
- Hyrwyddo'r Asesiad mewn modd cadarnhaol ac annog cyfranogiad
- Rhoi gwybodaeth leol
- Helpu i ddynodi aelwydydd sy'n byw o fewn y gymuned
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r astudiaeth asesu o fewn eu meysydd eu hunain ac i aelodau o fewn eu rhwydweithiau perthnasol
- Helpu i godi ymwybyddiaeth o ddiwylliant Sipsiwn a Theithwyr a'r rhwystrau posibl a gaiff eu profi fel arfer
- Helpu i graffu a rhoi adborth ar y canlyniadau
- Llofnodi'r adroddiad i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru

4.04 Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r asiantaethau dilynol:

- Aelodau Etholedig Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru
- Swyddog Cydraddoldeb (Cyngor Sir Fynwy)
- Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (Cyngor Sir Fynwy)
- Rheolwr Rhaglenni Gwledig (Cyngor Sir Fynwy)
- Swyddog Arbenigol Iechyd yr Amgylchedd (Cyngor Sir Fynwy)
- Cymdeithas Tai Sir Fynwy
- Cartrefi Melin
- Adran Polisi Cynllunio (Cyngor Sir Fynwy)
- Tîm Opsiynau Tai (Cyngor Sir Fynwy)
- Gwasanaethau Plant – Diogelu mewn Addysg (Cyngor Sir Fynwy)
- Prif Swyddog Cynhwysiant – Plant a Phobl Ifanc (Cyngor Sir Fynwy)
- Dirprwy Bennaeth Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GEMS)
- Uwch Swyddog Comisiynu, Cefnogi Pobl (Cyngor Sir Fynwy)
- Rheolwr Tai a Chymunedau (Cyngor Sir Fynwy)

- Swyddog Prosiect, Lleisiau Sir Fynwy
- Gwasanaethau Gwastraff a Stryd (Cyngor Sir Fynwy)
- Cydlynnydd Cydlyniaeth Cymunedol Rhanbarthol Dwyrain Gwent
- Gwalia
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Heddlu
- 4 Aelod o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr leol
- Swyddog o awdurdodau lleol cyfagos.

4.0.4 Rhoddodd aelodau'r Grŵp Llywio wybodaeth am Sipsiwn a Theithwyr y gwyddant amdanynt a lle'n berthnasol, hysbysu aelwydydd fod yr Aseiad yn cael ei gynnal a gwahodd aelwydydd i gymryd rhan.

#### 4.1. Methodoleg yr astudiaeth:

4.1.1 Yn unol â'r canllawiau, roedd llenwi'r holiadur i fod drwy gyfweiliadau wyneb-i-wyneb. Fodd bynnag mewn un achos cafodd yr holiadur ei lenwi gan gynrychiolydd ar gyfer teulu oedd allan o'r Sir adeg y broses cyfwelid.

4.1.2 Cafodd yr aelwydydd a gytunodd gymryd rhan yn yr holiadur eu cyfweld yn ystod mis Hydref i fis Rhagfyr 2019.

4.1.3 Rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r rhestr wirio ymgysylltu a gynhwysir yn nogfen Canllawiau Llywodraeth Cymru. Mae Tabl 1 yn rhoi rhestr wirio a sylwadau am gais y Cyngor ar y wefan. Mae'n rhaid ystyried hyn o fewn y cyd-destun nad oes gan y Cyngor unrhyw safleoedd a gaiff eu rhedeg gan yr awdurdod lleol yn y Sir.

Tabl 1: Rhestr Wirio Llywodraeth Cymru

1.	<p><b>Ymweld â phob aelwyd o Sipsiwn a Deithwyr a bennwyd drwy'r broses dadansoddi hyd at 3 gwaith, os bydd angen.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fedrodd y Cyngor gysylltu gyda thair aelwyd er gwaethaf nifer o ymweliadau a gadael deunydd hyrwyddo, llythyrau a negeseuon e-bost.</li> </ul>
2.	<p><b>Cyhoeddi manylion proses yr Aseiad</b>, gan gynnwys manylion cyswllt fel y gall aelodau o'r gymuned ofyn am gyfweiliad, ar wefan yr Awdurdod Lleol, ar wefan Travellers' Times.</p> <p>Defnyddiwyd y dulliau i hyrwyddo aseiad Cyngor Sir Fynwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Taflen hyrwyddo a ddefnyddiwyd yn y ffordd dilynol <ul style="list-style-type: none"> <li>o Datganiad i'r wasg</li> <li>o Gwefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol</li> <li>o Gwefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol Traveller Times &amp; Showpeople Guild</li> <li>o Gwefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol Travelling Ahead</li> <li>o Gwefannau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig</li> </ul> </li> </ul>

3.	<p><b>Ymgynghori â sefydliadau cymorth cymunedol perthnasol, fel y rheini yn Atodiad 1.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysylltodd y Cyngor gyda Travelling Ahead – prosiect yn gweithio gyda phobl ifanc a theuluoedd o gymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr yng Nghymru.</li> </ul>
4.	<p><b>Datblygu rhestr aros Awdurdodau Lleol ar gyfer lleiniau a thai a fydd yn agored i aelodau o'r gymuned ac y byddant yn cael eu hysbysu amdani.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cafodd aelodau a gymerodd ran yn y prosiect gyfle i wneud cais i gofrestr tai y Cyngor a rhestr aros lleiniau Sipsiwn a Theithwyr.</li> </ul>
5.	<p><b>Ceisio cynnwys Sipsiwn a Theithwyr yng ngrŵp llywio prosiect yr Asesiad.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Oherwydd nifer isel yr aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr a Siewmyn yn Sir Fynwy, bu modd i ni drafod yn uniongyrchol gydag aelwydydd unigol tu allan i ddull ffurfiol y Grŵp Llywio.</li> </ul>
6.	<p><b>Sicrhau bod manylion cyswllt sy'n cael eu darparu i'r Awdurdod Lleol gan aelodau o'r gymuned drwy broses yn arolwg yn cael ei dilyn a bod anghenion yn cael eu hasesu.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddodd pob cyfweiliad gyfle i aelodau eraill o'r gymuned gael eu cyfweld drwy'r broses.</li> <li>•</li> </ul>
7.	<p><b>Ystyried cynnal digwyddiadau hysbysrwydd ar yr Asesiad ar safleoedd (neu gerllaw) i edrych pam y dylai aelodau o'r gymuned gymryd rhan a chymhell preswylwyr ar safleoedd i ddod â phobl eraill gyda nhw na fydd yr Awdurdod Lleol yn gwybod amdanynt o bosibl.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni ystyriwyd fod yn yn addas ar gyfer Sir Fynwy oherwydd nad oes unrhyw safle dan reolaeth y Cyngor yn y Sir a'r nifer isel o aelwydydd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn.</li> </ul>

4.1.4 Bu codi ymwybyddiaeth yn fewnol o fewn y Cyngor ac yn allanol yn flaenoriaeth i'r fethodoleg. Defnyddiwyd yr ystod dilynol o ddulliau i gyfathrebu gweithredu'r asesiad:

- Datganiad i'r wasg Hydref 2019;
- Dosbarthu taflen Cyngor Sir Fynwy i aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr a ddynodwyd drwy'r Grŵp Llywio;
- Cyhoeddi manylion asesu ar wefan y Cyngor a chyfryngau cymdeithasol Traveller Times, Travelling Ahead a Showman's Guild.
- Cynhaliodd Travelling Ahead sesiwn ymwybyddiaeth i aelodau ar 27 Tachwedd 2019.
- Cafodd yr Asesiad ei ystyried a'i graffu gan Bwyllgor Dethol Oedolion y Cyngor ar 10 Rhagfyr 2020;
- Cafodd yr Asesiad ei fabwysiadu gan y Cabinet ar 6 Ionawr 2021.

## 5.0. Canfyddiadau'r Arolwg:

### 5.0.1 Cyfweiliadau gydag aelwydydd

5.0.2 Cafodd 13 o aelwydydd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn eu dynodi yn y dulliau dilynol.

- Y gofrestr tai.
- Aelodau'r grŵp llywio.
- Aelwydydd presennol y mae'r Cyngor yn gwybod amdanynt.

5.0.3 Cysylltodd swyddogion o'r Cyngor â naw o aelwydydd gyda


- Saith aelwyd wedi llenwi'r holiadur
- Gwrthododd dwy aelwyd gymryd rhan yn y broses

5.0.4 Er ymdrechion niferus, ni fedrodd swyddogion y Cyngor gysylltu â phedair o'r aelwydydd a ddynodwyd. Fodd bynnag, cafodd manylion cyfansoddiad aelwydydd eu casglu o'u cais cynllunio.

## 5.1 Llety presennol:

5.1.1 Mae'r siart dilynol yn dangos y math o lety yr oedd aelwydydd a ymatebodd yn byw ynddo adeg llenwi'r holiadur.

Ffigur 3 – Llety adeg yr holiadur




5.1.2 Mae nifer yr aelwydydd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn a gymerodd ran yn Aseiad 2019 yn is na ffigur 2015. Priodolir hyn i'r adeg o'r flwyddyn y cynhaliwyd yr asesiad. Cafodd yr holiadur ar gyfer asesiad 2015 ei gynnal yn ystod misoedd yr haf, pan oedd aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn ymweld â'r Sir ar gyfer gŵyl grefyddol.

5.1.3 Ar gyfer yr asesiad hwn, cynhaliwyd y cyfweiliadau ddiwedd yr hydref pan nad yw yn draddodiad i aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr fod yn teithio.

## 5.2. Proffil cyfansoddiad aelwydydd:

5.2.1 Mae gan bump o'r saith aelwyd a ymatebodd blant dibynno. Mae dadansoddiad manwl yn ffigur 5 isod.


Ffigur 4: Cyfansoddiad aelwydydd



### 5.3. Proffil oedran aelwydydd:

5.3.1 Mae'r siart isod yn dangos categori oedran aelodau aelwydydd.


Ffigur 5: Cyfansoddiad aelwydydd yn ôl oedran



### 5.4. Proffil ethnigrwydd aelwydydd:

5.4.1. Dynododd 14 o aelodau aelwydydd eu hethnigrwydd fel Romani, a saith aelod o aelwydydd yn uniaethu fel Teithwyr Gwyddelig. Disgrifiodd un aelod aelwyd ei hun fel 'Arall'.

Ffigur 6: Ethnigrwydd aelwydydd




### 5.5. Addasrwydd llety presennol:

5.5.1 Roedd chwech o'r saith ymatebwyr aelwydydd yn hapus gyda'u llety presennol, gan ymateb

yn gadarnhaol er y ffaith fod pedair o'r aelwydydd dan fgythiad cael eu troi allan o'r gwersyll anghyfreithlon.

Ffigur 7 – Addasrwydd llety presennol



5.5.2. Rhoddodd un aelwyd ymateb negyddol oherwydd eu bod yn byw mewn tŷ pan mae eu dewis fyddai byw mewn carafán.

## 6.0 Asesu anghenion llety:

### 6.0.1 Deall 'angen' a 'dewisiadau'

6.0.2. Pan ddaw i ddarpariaeth a dewis lleiniau, mae aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn gyfyngedig am ble y gallant ddewis byw. O gymharu, mae gan aelwydydd heb fod yn rhai teithiol ddewisiadau llawer ehangach oherwydd fod stadau tai cymdeithasol ar gael ym mhob awdurdod lleol, tra bod aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn dod i gysylltiad ag awdurdodau lleol lle nad oes unrhyw safleoedd awdurdodedig o gwbl.

6.0.3. Fel canlyniad, nid oes gan aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr unrhyw ddewis heblaw defnyddio safleoedd mewn awdurdodau lleol cyfagos lle mae safleoedd ar gael er mai eu 'dewis' neu 'angen' fyddai byw mewn awdurdod lleol cyfagos.

6.0.4. Gall hyn olygu nad oes llain ar gael ar gyfer aelwyd leol Sipsiwn a Theithwyr. Gall hefyd olygu fod aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn symud i dai yn ardal yr awdurdod lleol o'u dewis. Mae hyn yn ddewis derbyniol ar gyfer rhai aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr ond i eraill mae'n ddewis annerbyniol oherwydd nad oes dewisiadau eraill addas ar gael iddynt.

6.0.4. Mae hyn yn cyflwyno her i awdurdod lleol pan fyddant yn cynnal yr asesiad gan y bydd eisiau gwahaniaethu rhwng angen a dewis. Mae hyn oherwydd mai 'anghenion' sy'n penderfynu os yw'n rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu safleoedd a lleiniau.

6.0.5. Bydd y diffiniad o'r 'angen' ar gyfer dibenion yr asesiad ar y ffurf ddilynol:

- Aelwydydd heb unrhyw safle awdurdodedig i fyw arni
- Aelwydydd gorlawn
- Aelwydydd sydd â gwrthwynebiad diwylliannol at fyw mewn tai confensiynol.

- 6.0.7 Mae gwrthwynebiad diwylliannol yn gyflwr y gall llawer o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr mewn tai confensiynol ei brofi. Ar gyfer llawer o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn tai confensiynol, gall hyn gael effaith niweidiol ar iechyd a llesiant aelod o'r aelwyd.
- 6.0.8 Fodd bynnag, nid oes disgwyliad i awdurdodau lleol gynnal ymchwiliad manwl i honiad unigolyn eu bod yn dioddef gwrthwynebiad diwylliannol ar gyfer dibenion asesiad; dylai unrhyw asesiad manwl fod yn rhan o bolisiâu digartrefedd neu ddyrannu lleiniau yr awdurdod. Mae hyn oherwydd fod y broses asesu yn anelu i roi amcangyfrif eang o'r tebygolrwydd o angen yn eu hardal. (Paragraff 176 – 178 Canllawiau Llywodraeth Cymru).

## **7.0 Asesu anghenion llety yn Sir Fynwy:**

- 7.0.1 Mae ffocws yr adran hon ar angen darparu lleiniau ar gyfer Cyngor Sir Fynwy am gyfnod tymor byr o 5 mlynedd a chyfnod llawn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd hyd at 2033. Mae hyn yn cynnwys angen cyfredol na chaiff ei ddiwallu ac angen y dyfodol. Mae'r cyfnod hwn yn caniatáu rhagolygon cadarn ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gynhwysir o fewn yr astudiaeth hon ac o ffynonellau data eilaidd.
- 7.0.2 Mae'r dystiolaeth yn gyfuniad o ffynonellau gwybodaeth yn cynnwys cyfweiliadau gydag aelwydydd, cofnodion cynllunio, aelodau'r grŵp llywio a rhanddeiliaid eraill. Mewn llawer o achosion, ni chaiff data'r arolwg ei ddefnyddio ar wahân, ond yn hytrach caiff ei ddefnyddio i ddilysu gwybodaeth o gofnodion cynllunio neu ffynonellau eraill.
- 7.0.3 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar gyfanswm darpariaeth ychwanegol angen a ph'un ai oes angen ar gyfer unrhyw safleoedd tramwy a/neu ddarparu manau stopio argyfwng.
- 7.0.4 Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Asesu Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn gofyn am asesiad o anghenion lleiniau cyfredol a'r dyfodol ac yn gosod fframwaith wedi ei rhagnodi ar gyfer cynnal yr Asesiad. Mae'r Asesiad hwn yn dilyn y fframwaith a nodir yn y canllawiau.
- 7.0.5 Fel gydag unrhyw asesiad o angen tai gellir rhannu'r cyfrifiad sylfaenol yn nifer cymharol fach o ffactorau. Yn yr achos hwn, y mater allweddol ar gyfer lleiniau preswyl yw cymharu'r cyflenwad sydd ar gael ar gyfer eu meddiannu gydag anghenion cyfredol a dyfodol aelwydydd. Caiff y ffactorau allweddol ym mhob un o'r elfennau hyn eu nodi yn yr adrannau isod.

## **8. Yr angen am leiniau Sipsiwn a Theithwyr:**

- 8.0.1 Mae'r angen ar gyfer lleiniau Sipsiwn a Theithwyr yn cynnwys yr elfennau dilynol:

### 1) Cyflenwad preswyl cyfredol

- Lleiniau awdurdod lleol a gaiff eu meddiannu
- Lleiniau preifat a awdurdodwyd a gaiff eu meddiannu
- Lleiniau gwag awdurdodau lleol a'r lleiniau preifat sydd ar gael
- Lleiniau gwag a ddisgwylir yn y dyfodol agos
- Lleiniau newydd awdurdodau lleol a lleiniau preifat gyda chaniatâd cynllunio.

### 2) Galw preswyl cyfredol

- Aelwydydd ar wersylloedd diawdurdod.



- Aelwydydd ar ddatblygiadau diawdurdod.
- Aelwydydd cudd/gorlawn/dwbl<sup>4</sup>.
- Tai confensiynol – symud o frics a mortar<sup>5</sup>.
- Aelwydydd newydd i gyrraedd o restrï aros/mewnfudo.

### 3) Galw yn y dyfodol

- Mae cyfanswm galw'r dyfodol yn ganlyniad ffurfio aelwydydd newydd yn ystod cyfnod yr astudiaeth. Mae gwybodaeth o'r cyfweiliadau yn rhoi manylion nifer crynswth aelwydydd newydd y disgwylir fyddant yn cael eu ffurfio o fewn 5 mlynedd cyntaf yr astudiaeth (er ei bod yn bwysig *netio* hyn yn erbyn cyflenwad y gellir ei ddynodi yn ystod 5 mis cyntaf yr astudiaeth). Mae'r defnydd o dystiolaeth ddemograffig o'r cyfweiliadau yn sail i'r gyfradd ffurfio aelwydydd cyfansawdd *net* a ddefnyddir ar gyfer blynyddoedd 6-13 yr astudiaeth.

## 8.1 Cyflenwad preswyl awdurdodedig cyfredol:

8.1.1 I asesu'r ddarpariaeth gyfredol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr mae'n bwysig deall cyfanswm nifer y lleiniau presennol a'u statws cynllunio. Nid oes unrhyw safleoedd cyhoeddus wedi eu hawdurdodi a thri safle preifat bach yn Sir Fynwy. Nid oes unrhyw ddarpariaeth tramwy cyhoeddus na phreifat ac nid oes unrhyw iardiau ar gyfer Siewmyn Teithiol.

Tabl 2: Cyfanswm nifer safleoedd awdurdodedig yn Sir Fynwy fel ym Mawrth 2020

Categori	Safleoedd	Lleiniau	Lleiniau a feddiannir
Safleoedd preifat gyda chaniatâd cynllunio parhaol	3	9	3
Safleoedd preifat gyda chaniatâd cynllunio dros dro	0	0	0
Safleoedd cyhoeddus (Cyngor a darparwyr cofrestredig)	0	0	0
Darpariaeth tramwy cyhoeddus	0	0	0
Darpariaeth tramwy preifat	0	0	0

8.1.2 Cam nesaf y broses yw asesu faint o ofod sydd ar gael, neu a fydd yn dod ar gael, ar safleoedd presennol er mwyn penderfynu'r cyflenwad o leiniau sydd ar gael. Y prif ffyrdd o ganfod hyn yw drwy:

- **Lleiniau gwag cyfredol** – nid oes unrhyw leiniau gwag yn Sir Fynwy.
- **Lleiniau y disgwylir y byddant yn dod yn wag** – nid oes unrhyw safleoedd cyhoeddus yn Sir Fynwy
- **Lleiniau sydd â chaniatâd cynllunio ar hyn o bryd** – Mae 6 llain gyda chaniatâd cynllunio na chaiff eu gweithredu yn Sir Fynwy. Y rhain yw Craig-yr-Leir, Llangyfiw (5) a Sunnybank, Crug (1)

8.1.3 Mae hyn yn rhoi ffigur ar gyfer **cyfanswm cyflenwad o 6 llain**.

<sup>4</sup> Yn dilyn y canllawiau a nodir ym mharagraffau 195-201 Canllawiau Asesiad o Anghenion Llety a Theithwyr

<sup>5</sup> Yn dilyn y canllawiau a nodir ym mharagraffau 172-183 Canllawiau Asesiad o Anghenion Llety a Theithwyr

## **8.2 Y galw preswyl cyfredol**

8.2.1 Cam nesaf y broses yw asesu yr angen cyfredol a phenderfynu faint o aelwydydd sy'n edrych am leiniau yn yr ardal ar hyn o bryd.

## **8.3 Safleoedd diawdurdod a goddefiant cyfredol:**

8.3.1 Mae'n broblem gyda llawer o Asesiadau o Anghenon Llety Sipsiwn a Theithwyr eu bod yn aml yn cyfrif pob carafán ar ddatblygiadau a gwersylloedd diawdurdod fel bod angen llain yn yr ardal, pan yn ymarferol dim ond ymweld neu fynd trwodd mae llawer o aelwydydd. Gall rhai aelwydydd fod ar safleoedd goddefiant ar gyfer dibenion cynllunio. Er mwyn unioni hyn, y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer yr Asesiad hwn yw:

- Trin angen fel dim ond yr aelwydydd hynny sydd ar safleoedd diawdurdod a goddefiant sydd eisoes yn y system cynllunio (h.y. safleoedd/lleiniau y gwnaed cais cynllunio ar eu cyfer neu sy'n debygol o gael ei wneud ar eu cyfer)
- Y rhai sydd fel arall yn hysbys i'r Cyngor fel bod yn breswyl yn yr ardal, neu
- Y rhai a ddynodwyd drwy'r arolwg aelwydydd fel bod angen lleiniau.

8.3.2 Mae'r astudiaeth wedi dynodi nad oes unrhyw safleoedd gyda chaniatâd cynllunio dros dro, dim safleoedd goddefiant ar gyfer dibenion cynllunio a dau safle diawdurdod yn Sir Fynwy. Y rhain yw Tir ger Tŷ Coedwr, Llanwytherin (1 llain) a Tir gyferbyn â Tŷ Llancayo (4 llain). Gwrthodwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y ddau safle a gwrthodwyd apeliadau, a chaiff y penderfyniadau hyn eu herio drwy'r llysoedd fel ym mis Mawrth 2020

## **8.4 Lleiniau gorlawn:**

8.4.1 Ceisiodd y cyfweiliadau safle ddynodi aelwydydd cudd neu aelwydydd dwbl neu oedolion sengl ar safleoedd awdurdodedig a diawdurdod sydd angen llain ar unwaith.

8.4.2 Aelwyd neu oedolyn cudd yw un sy'n byw mewn aelwyd aml-deulu yn ogystal â'r prif deulu. Gall enghreifftiau gynnwys cwpwl ifanc yn byw mewn cartref symudol gyda rhieni, sydd angen eu llety teuluol ar wahân eu hunain, ond na allant gael hynny oherwydd diffyg lle ar safleoedd cyhoeddus neu breifat; neu aelod sengl o'r teulu neu unigolyn yn byw mewn uned deuluol bresennol sydd angen llety ar wahân.

8.4.3 Teulu neu oedolyn sengl dwbl yw un sy'n byw mewn carafán ar wahân (carafán deithiol fel arall) ar safle neu lain lle mae'r nifer fwy nag a ganiateir o garafanau.

8.4.4 Dynododd yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfweiliadau ddau oedolyn cudd neu ddwbl ar ddau safle yn Sir Fynwy – un yn yr Hen Gyfnwidfa Ffôn ac un ar Dir gyferbyn â Tŷ Llancayo.

## **8.5 Tai confensiynol:**

8.5.1 Mater y sonnir amdano yn aml wrth ddynodi nifer yr aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr mewn tai brics a mortar yw eu cywirdeb. Dynododd Cyfrifiad Poblogaeth 2011 y Deyrnas Unedig fod chwe aelwyd yn Sir Fynwy yn byw mewn tŷ neu fyngalo.

8.5.2 Fel y nodwyd yn gynharach, ceisiodd yr asesiad ddynodi Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn tai brics a mortar i'w cyfweld. Arweiniodd y broses at gyfweiliad gydag un aelwyd yn byw mewn tŷ brics a mortar yn Sir Fynwy gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer safle newydd yn

Sunnybank, Crug. Dynododd y cyfweiliad oedolyn cudd yn byw ar yr aelwyd, fodd bynnag byddai lletya'r oedolyn cudd yma yn digwydd drwy ganiatâd cynllunio pe byddai'n cael ei weithredu.

## **8.6 Aelwydydd newydd i gyrraedd:**

8.6.1 Nid oes safle cyhoeddus yn Sir Fynwy. Mae'r asesiad hefyd wedi ystyried mewnfudo (aelwydydd sydd angen llety a symudodd i ardal yr astudiaeth o'r tu allan) ac allfudo (aelwydydd yn symud ymaith o'r ardal astudio). Fel arfer dim ond nifer fach o aelwydydd mewnfudo ac allfudo sy'n cael eu dynodi mewn arolygon ac nid yw'r data fel arfer yn ddigon cadarn i alldynnu tueddiadau hirdymor. Ar y lefel genedlaethol, nid oes dim mudo net o Sipsiwn a Theithwyr ar draws y Deyrnas Unedig, ond mae'r asesiad hwn wedi rhoi ystyriaeth i effeithiau mudo lleol yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.

8.6.2 Wrth ystyried y dystiolaeth a geir o gyfweiliadau gydag aelwydydd ac ymchwil seiliedig ar ddesg yn Sir Fynwy, mae'r Asesiad wedi dynodi fod yr aelwydydd arfaethedig sy'n ceisio meddiannu'r pump llain nas gweithredwyd yng Nghraig-yr-Leir, Llangyfiw i gyd oll yn byw mewn safle cyhoeddus yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Ni ddynodwyd unrhyw aelwydydd oedd yn ceisio symud ymaith o Sir Fynwy.

8.6.3 Tu hwnt i hyn, yn hytrach na dynodi unrhyw aelwydydd eraill yn mewnfudo sy'n ceisio datblygu safleoedd newydd yn Sir Fynwy, mae'r Asesiad yn argymhell fod y Cyngor yn parhau i ddilyn ei bolisiâu presennol seiliedig ar feini prawf ar gyfer unrhyw safleoedd newydd ar hap sydd yn codi. Yn ychwanegol, nid oes unrhyw un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cysylltu i hysbysu am unrhyw aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr a all geisio preswyllo neu gyrchu i Sir Fynwy.

## **8.7 Darpariaeth lleiniau ychwanegol: angen y dyfodol**

8.7.1 Cam nesaf y broses yw asesu angen y dyfodol a phenderfynu faint o aelwydydd sy'n debygol o fod yn ceisio lleiniau yn yr ardal yn y dyfodol yn ystod 5 mlynedd gyntaf yr asesiad ac ar gyfer cyfnod 13-mlynedd hirach y Cynllun Datblygu Lleol Newydd hyd 2033.

## **8.8 Twf poblogaeth ac aelwydydd:**

8.8.1 Yn genedlaethol, mae tybiaeth gyffredinol y bydd cyfradd twf o 3.00% net y flwyddyn ar ffurfio aelwydydd. Cafodd hyn ei ddefnyddio'n eang mewn Asesiadau lleol hyd yn oed er nad oes unrhyw dystiolaeth ystadegol o aelwydydd yn cynyddu mor gyflym. Y canlyniad fu chwyddo gofynion cenedlaethol a lleol ar gyfer lleiniau ychwanegol yn afrealistig. Yn y cyd-destun hwn mae ORS wedi paratoi *Nodyn Technegol ar Gyfraddau Ffurfio Aelwydydd*. Caiff y prif gasgliadau eu nodi yn y paragraffau dilynol. Gweler Atodiad 6 i gael y Nodyn Technegol llawn.

8.8.2 Weithiau mae'r rhai sy'n ceisio darparu tystiolaeth o gyfraddau net twf aelwydydd blynyddol uchel ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi ceisio dibynnu ar gynnydd yn nifer y carafanau, fel a welir yn y Cyfrifon Carafanau. Fodd bynnag mae data Cyfrif Carafanau yn annibynadwy ac anghyson – felly yr unig ffordd i ragamcanu twf poblogaeth ac aelwydydd y dyfodol yw drwy ddadansoddiad demograffig manwl.

8.8.3 Dynododd yr ymchwil a gynhaliwyd gan ORS mewn gwirionedd y gall y twf cenedlaethol yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr fod mor isel â 1.50% y flwyddyn – llawer llai na'r 3.00% y

flwyddyn a dybir yn aml, ond yn dal i fod yn fwy nag yn y gymuned sydd wedi setlo. Hyd yn oed yn defnyddio tybiaethau eithafol ac afrealistig, mae'n anodd dod o hyd i dystiolaeth fod cyfraddau twf poblogaeth ac aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr dros 2.00% y flwyddyn yn genedlaethol.

8.8.4 Dynododd y cyfweiliadau safleoedd a thai **1 aelwyd newydd** fel canlyniad i dwf teulu dros 5 mlynedd cyntaf yr asesiad – 1 person ifanc yn ei arddegau yn byw ar safle preifat a dim trosiant lleiniau.

8.8.5 Fel arfer, caiff y gyfradd twf aelwydydd a ddefnyddir ar gyfer asesu anghenion y dyfodol ei seilio ar dystiolaeth ddemograffig leol a ddefnyddir i addasu'r gyfradd twf genedlaethol o 1.50% i fyny neu i lawr yn seiliedig ar gyfran y rhai dan 18 oed (yn ôl statws teithio).

8.8.6 Fodd bynnag, yn Sir Fynwy dim ond 12 o blant y dynodwyd eu bod dan 18 oed ac yn yr amgylchiadau hynny nid oedd yn briodol gweithredu cyfradd canran ar gyfer ffurfio aelwydydd newydd ond cymryd ymagwedd mwy pragmataidd ar ffurfio aelwydydd newydd tebygol yn seiliedig ar oedran a rhyw y plant a ddynodwyd yn yr Asesiad. Mae'r dull hwn yn tybio y bydd 50% o aelwydydd tebygol o ffurfio yn aros yn yr ardal. Mae tystiolaeth flaenorol o Asesiadau eraill a gynhaliodd ORS ar draws Lloegr a Chymru dros y blynyddoedd wedi bod yn sail i'r dull gweithredu hwn.

8.8.7 Mae hyn wedi dynodi ffurfio aelwyd newydd o ddau dros y cyfnod o 2025-2029 a ffurfio aelwyd newydd o ddau ar gyfer y cyfnod 2030-2033.

## 9.0 Cyfanswm angen ar gyfer Sir Fynwy:

9.0.1 Ar ôl archwilio pob elfen o gyfrifiad angen, cam nesaf yr asesiad yw cydbwysu angen cyfredol a'r dyfodol o gymharu â chyflenwad i roi cyfanswm angen ar gyfer Sir Fynwy yn dilyn y dull gweithredu a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.

9.0.2 Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru angen dau asesiad angen – am 5 mlynedd cyntaf cyfnod y cynllun ac ar gyfer cyfnod 13-mlynedd llawn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Yn dilyn y dull gweithredu hwn, yr angen disgwyliedig yn Sir Fynwy am y 5 mlynedd gyntaf yw **naw (9) llain**. Yr angen disgwyliedig am weddill cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (blynyddoedd 6-13) yw **pedair (4) llain**. Mae hyn yn gyfartal â **thair ar ddeg (13)** o leiniau ar gyfer cyfnod 13-mlynedd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd hyn yn ateb anghenion yr holl aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr y gellir eu dynodi o'r twf disgwyliedig mewn rhifau aelwydydd oherwydd ffurfio aelwydydd newydd.

9.0.3 Mae'r tabl isod yn nodi sut y caiff hyn ei gyfrifo.

Tabl 3: Lleiniau ychwanegol sydd eu hangen yn Sir Fynwy rhwng 2020-2033

Cyflenwad preswyl cyfredol	Nifer lleiniau	Nodiadau
<b>A. Lleiniau awdurdod lleol wedi eu meddiannu</b>	0	Dim safleoedd cyhoeddus yn Sir Fynwy
<b>B. Lleiniau preifat awdurdodedig / lleiniau goddefiant a feddiannir</b>	3	3 llain breifat a feddiannir (Hen Gyfnewidfa Ffôn (1) a Llangyfiw (2) Para 8.1.1)
<b>Cyfanswm</b>	<b>3</b>	

Cyflenwad preswyl a gynllunnir	Nifer lleiniau	Nodiadau
C. Lleiniau Awdurdod Lleol sy'n wag a lleiniau gwag sydd ar gael	0	Dim safleoedd cyhoeddus
D. Lleiniau y disgwylir y byddant yn dod yn wag yn y dyfodol agos	0	Dim safleoedd cyhoeddus
E. Lleiniau Awdurdod Lleol a phreifat newydd gyda chaniatâd cynllunio	6	6 llain heb eu gweithredu ar 2 safle preifat (Crug (1) a Llangyfiw (5) Para 8.1.2)
<b>Cyfanswm</b>	<b>6</b>	
Galw preswyl cyfredol	Galw am leiniau	Nodiadau
F. Gwersylloedd diawdurdod	0	Dim gwersylloedd
G. Datblygiad diawdurdod	5	5 llain diawdurdod ar 2 safle preifat (Llancayo (4) a Llanwytherin (1) Para 8.3.2)
H. Lleiniau gorlawn/llety anaddas	2	2 oedolyn dyblu-lan – 1 ar safle preifat (Hen Gyfnewidfa Ffôn) ac 1 ar safle diawdurdod (Llancayo). (Para 8.4.4)
I. Tai confensiynol	2	1 aelwyd ac 1 plentyn mewn oed mewn tŷ brics a mortar <sup>6</sup> (Para 8.5.2)
J. Aelwydydd newydd i gyrraedd	5	Mewnfudo wedi ei ddynodi ar gyfer 5 aelwyd <sup>7</sup> (Para 8.6.2)
<b>Cyfanswm</b>	<b>14</b>	
Aelwydydd cyfredol	Aelwydydd y dyfodol (ar flwyddyn 5)	Aelwydydd y dyfodol (blynyddoedd 6 i 13)
K. 17	18	22
L. Angen lleiniau ar gyfer aelwydydd ychwanegol <sup>8</sup>	1	4
Angen heb ei ddiwallu	Angen yn codi	Angen y darparwyd amdano
M. Galw preswyl cyfredol (Rhesi F i J)	14	
N. Galw preswyl y dyfodol (blwyddyn 5)	1	
O. Galw preswyl y dyfodol (blynyddoedd 6 i 15)	4	
P. Cyflenwad preswyl a gynlluniwyd (Rhesi E)		6
Q. Angen nas diwallwyd (5 mlynedd) (Rhesi M+N-P)	9	
R. Angen nas diwallwyd (cyfnod Cynllun Datblygu Lleol Newydd) (Rhesi M+N+O-P)	13	

<sup>6</sup> Mae'r aelwydydd hyn yn ceisio symud i un o'r lleiniau nas gweithredir y cyfeirir ato yn llinell E.

<sup>7</sup> Mae'r aelwydydd hyn yn ceisio symud 5 o'r lleiniau nas gweithredir y cyfeirir atynt yn llinell E.

<sup>8</sup> 1 person ifanc yn ei ardegau ym mlynnyddoedd 0-5 a ffurfio aelwyd newydd o 4 ym mlynnyddoedd 6-13.

## 10. **Darpariaeth Safle Stopio Tramwy/Argyfwng:**

- 10.0.1 Mae safleoedd tramwy yn gwasanaethu swyddogaeth benodol o ddiwallu anghenion aelwydydd Sipsiwn Theithwyr sy'n ymweld ag ardal neu sy'n pasio trwodd. Fel arfer mae gan safle tramwy gyfyngiad ar hyd yr arhosiad o tua 13 wythnos a gall gael ystod o gyfleusterau tebyg i gyflenwad dŵr, trydan a blociau amwynder. Mae Man Stopio Argyfwng yn ddewis arall yn lle safle tramwy. Mae gan y rhain hefyd gyfyngiadau ar ba mor hir y gall Teithwyr aros yno ond mae ganddynt gyfleusterau mwy cyfyngedig gyda fel arfer dim ond ffynhonnell dŵr a thoiledau cemegol ar gael. Mae rhai awdurdodau lleol hefyd yn gweithredu polisi stopio a gafodd ei dderbyn neu ei negodi lle caiff aelwydydd fynediad i oleuadau, dŵr yfed, casglu sbwriel a llogi toiledau cludadwy ar gost i'r Teithwyr.
- 10.0.2 Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yn neilltuol o bwysig yng nghyswllt darparu safleoedd tramwy Sipsiwn a Theithwyr. Mae Adran 62A y Ddeddf yn galluogi'r Heddlu i gyfarwyddo tresbaswyr i symud eu hunain, eu cerbydau a'u heiddo o unrhyw dir lle mae llain addas ar safle carafanau berthnasol ar gael o fewn ardal yr un awdurdod lleol (neu o fewn y sir mewn ardaloedd awdurdod lleol dwy haen). Llain addas ar safle carafanau perthnasol yw un sydd yn ardal yr un awdurdod lleol â'r tir lle bu'r tresmasu, ac a gaiff ei reoli gan awdurdod lleol, darparwydd cofrestredig neu berson neu gorff arall a nodir drwy orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae cyfraith achos wedi cadarnhau fod yn rhaid i lain addas fod yn rhywle lle gall yr aelwyd ddefnyddio eu carafán. Nid yw tai brics a mortar yn amgen addas i lain.
- 10.0.3 Felly mae trefniadau tramwy yn rhoi lle i aelwydydd sydd mewn tramwy i ardal a dull ar gyfer mwy o weithredu gorfodaeth yn erbyn gwersylloedd diawdurdod amhriodol.
- 10.0.4 Mae dadansoddiad o amllder stopio anghyfreithlon ym mharagraff 3.2.4 uchod yn dangos enghreifftiau o garafanau diawdurdod ar ddau safle diawdurdod. Yn ychwanegol, mae trafodaethau gyda swyddogion y Cyngor wedi dynodi fod ychydig o achosion o wersylloedd diawdurdod ar dir nad yw'n eiddo Teithwyr ac mae'r rhain o deuluoedd sy'n pasio drwy'r sir.
- 10.0.5 Oherwydd hynny, mae'r Asesiad yn argymhell nad oes angen i'r Cyngor ddarparu safle tramwy parhaol yn Sir Fynwy. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor barhau i fonitro nifer y gwersylloedd diawdurdod a pharhau i ddefnyddio eu dulliau gweithredu cyfredol wrth ddelio gyda gwersylloedd. Gallai'r Cyngor hefyd ystyried defnyddio goddefiant tymor byr neu drefniadau stopio wedi'u negodi i ddelio gyda gwersylloedd tymor byr.

## 11. **Yr angen am leiniau i siewmyn teithiol:**

- 11.0.1 Uniaethodd un aelwyd fel Siewmyn Teithiol ond fe wnaethant wrthod cymryd rhan yn yr Asesiad felly nid oes angen cyfredol nac yn y dyfodol ar gyfer "llain" yn Sir Fynwy.

## 12. **Casgliadau:**

- 12.0.1 Gellir crynhoi casgliadau allweddol y broses asesu fel sy'n dilyn:

- Mae'r asesiad yn canfod fod angen na chaiff ei ddiwallu ar gyfer naw llain dan y cyfnod asesu 2020 i 2025.
- Mae angen pellach na chaiff ei ddiwallu o bedair llain dros weddill cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (2026 – 2033).

- Nid oes angen llain dramwy/stopio barhaol.
- Dylai'r Cyngor ystyried defnyddio goddefiant tymor-byr neu drefniadau stopio wedi eu negodi i ddelio gyda gwersylloedd tymor byr.

### 13. **Camau nesaf:**

- 13.0.1 Y Cyngor i geisio gwneud darpariaeth ar gyfer safleoedd priodol i ateb angen a ddynodwyd heb ei ddiwallu drwy weithio gyda'r aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr i ganfod eu dewis am ddarpariaeth safle, hynny yw, safleoedd preifat neu gyhoeddus.
- 13.0.2 Mae canfyddiadau proses yr Asesiad yn awgrymu fod dymuniad o fewn llawer o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer darpariaeth safle preifat yn Sir Fynwy. Felly bydd y Cyngor yn gweithio gyda a chefnogi aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr i ddynodi a datblygu safleoedd preifat hyfyw i drin yr angen nas diwallwyd a ddynodwyd yn unol â fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol. Hyd yma, ni chafodd unrhyw safleoedd ymgeisiol eu cyflwyno gan y gymuned Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer lleiniau i gael eu dyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.
- 13.0.3 Byddai angen i ddynodi a dyrannu safle(oedd) yr awdurdod lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr gael ei ystyried drwy broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, pe byddai'r angen am safle cyhoeddus yn dod yn amlwg oherwydd na fedrir cyflawni dymuniad y Gymuned am safleoedd preifat.
- 13.0.4 Caiff yr angen a ddynodwyd ar gyfer manau stopio dros dro ei ystyried ar sail ranbarthol fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Strategol sy'n dod i'r amlwg.

*Deddf Tai (Cymru) 2014 (anaw 7) 72***RHAN 3****SIPSIWN A THEITHWYR***Diwalu anghenion llety***101 Asesu anghenion llety**

- (1) Rhaid i awdurdod tai lleol, ym mhob cyfnod adolygu, gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n preswyllo yn ei ardal leol neu sy'n cyrchu yno.
- (2) Wrth gynnal asesiad o dan is-adran (1) rhaid i awdurdod tai lleol ymgynghori â'r cyfryw bobl sy'n briodol yn ei farn ef.
- (3) Yn is-adran (1) ystyr "cyfnod adolygu yw—
  - (a) y cyfnod hwnnw o flwyddyn sy'n dechrau pan ddaw'r adran hon i rym, a
  - (b) pob cyfnod dilynol o 5 mlynedd.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (3)(b) drwy orchymyn.

**102 Adroddiad yn dilyn asesiad**

- (1) Ar ôl cynnal asesiad rhaid i awdurdod tai lleol baratoi adroddiad sydd—
  - (a) yn rhoi manyhlion ynghylch y modd y cynhaliwyd yr asesiad;
  - (b) yn cynnwys crynodeb o—
    - (i) yr ymgynghoriad a gynhaliodd mewn cysylltiad â'r asesiad, a
    - (ii) yr ymatebion (os oes rhai) a gafwyd i'r ymgynghoriad hwnnw;
  - (c) rhoi manylion ynghylch yr anghenion llety a nodwyd gan yr asesiadyr .
- (2) Rhaid i awdurdod tai lleol gyflwyno'r adroddiad i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt gymeradwyo asesiad yr awdurdod.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru—
  - (a) cymeradwyo'r asesiad fel y'i cyflwynwyd;
  - (b) cymeradwyo'r asesiad gydag addasiadau;
  - (c) gwrthod yr asesiad.
- (4) Os bydd Gweinidogion Cymru yn gwrthod yr asesiad, rhaid i'r awdurdod tai lleol —
  - (a) diwygio ac ailgyflwyno ei asesiad i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (3), neu
  - (b) cynnal asesiad arall (yn yr achos hwn bydd adran 101(2) a'r adran hon yn gymwys eto, fel pe bai'r asesiad yn cael ei gynnal o dan adran 101(1)).
- (5) Rhaid i'r awdurdod tai lleol gyhoeddi asesiad a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

**103 Dyletswydd i gwrdd ag anghenion asessedig**

- (1) Os yw asesiad cymeradwy awdurdod tai lleol yn nodi anghenion o fewn ardal yr awdurdod mewn perthynas â darparu safleoedd lle mae modd gosod cartrefi symudol, rhaid i'r awdurdod arfer ei bwerau o dan adran 56 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (y pŵer i ddarparu safleoedd ar gyfer cartrefi symudol) i'r graddau y bo'n angenrheidiol i gwrdd â'r anghenion hynny.
- (2) Ond nid yw is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol ddarparu mewn safleoedd ar gyfer gosod cartrefi symudol, neu mewn cysylltiad â hwy, fannau gweithio a chyfleusterau ar gyfer cynnal gweithgareddau a wneir fel arfer gan Sipsiwn a Theithwyr.
- (3) Mae'r cyfeiriad yn is-adran (1) at asesiad cymeradwy awdurdod tai lleol yn gyfeiriad at asesiad mwyaf diweddar yr awdurdod o anghenion llety a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 102(3).

**104 Methiant i gydymffurfio i'r ddyletswydd o dan adran 3**

- (1) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod awdurdod tai lleol wedi methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir gan adran 103, caniateir iddynt gyfarwyddo'r awdurdod i arfer eu bwerau o dan adran 56 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 i'r graddau y bo'n angenrheidiol er mwyn cwrdd â'r anghenion a nodwyd yn ei asesiad cymeradwy.
- (2) Cyn rhoi cyfarwyddyd rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod ei lleol y byddai'r cyfarwyddyd yn berthnasol iddo.
- (3) Rhaid i'r awdurdod tai lleol gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo.
- (4) Mae'r canlynol yn berthnasol i gyfarwyddyd a nodir o dan yr adran hon;



- (a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;
- (b) caniateir ei amrywio neu ei ddirymu gan gyfarwyddyd pellach;
- (c) gellir ei orfodi gan orchymyn gorfodi ar gais gan Weinidogion Cymru, neu ar eu rhan.

**105 Darparu gwybodaeth ar gais**

(1) Rhaid i awdurdod tai lleol ddarparu i Weinidogion Cymru y gyfryw wybodaeth (ar y cyfryw adegau) ag y cânt ei gwneud yn ofynnol mewn cysylltiad ag arfer eu swyddogaethau o dan y Rhan hon.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau o dan yr adran hon yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achos neilltuol.

**106 Canllawiau**

(1) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon rhaid i awdurdod tai lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru—

- (a) rhoi canllawiau naill ai yn gyffredinol neu i awdurdodau o ddisgrifiadau penodedig
- (b) diwygio'r canllawiau drwy roi canllawiau pellach o dan yr adran hon;
- (c) tynnu'r canllawiau yn ôl drwy roi canllawiau pellach neu drwy hysbysiad.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw ganllawiau neu hysbysiad o dan yr adran hon.

**107 Dyletswyddau mewn perthynas â strategaethau tai**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys lle bo'n ofynnol o dan adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i awdurdod tai lleol fod â strategaeth mewn perthynas â chwrdd ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n preswyllo yn ei ardal neu sy'n cyrchu yno.

(2) Rhaid i'r awdurdod tai lleol—

- (a) rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi ei strategaeth;
- (b) ystyried y strategaeth wrth arfer ei swyddogaethau (gan gynnwys swyddogaethau sy'n arferadwy heblaw fel awdurdod tai lleol).

*Cyffredinol*

**108 Dehongli**

Yn y Rhan hon—

mae "anghenion llety" yn cynnwys anghenion mewn perthynas â darparu safleoedd lle mae modd gosod cartrefi symudol ond nid yw'n gyfyngedig iddynt;

mae gan "cartref symudol" yr ystyr a roddir gan adran 60 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) (2013); ystyr "Sipsiwn a Theithwyr" yw —

- (a) personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys -
  - (i) personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, a
  - (ii) aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau 'sy'n rhan o syrcau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deitho mewn grŵo o'r fath ai peidio), a
- (b) unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.;

**109 Pŵer i ddiwygio'r diffiniad o Sipsiwn a Theithwyr**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddiwygio'r diffiniad o Sipsiwn a Theithwyr yn adran 106 drwy -

- (a) ychwanegu disgrifiad o bersonau;
- (b) addasu disgrifiad o bersonau;
- (c) dileu disgrifiad o bersonau.

(2) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon hefyd wneud ba bynnag ddiwygiadau i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ag y bydd Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn angenrheidiol neu'n briodol o ganlyniad i newid i'r diffiniad a grybwyllir yn is-adran (1),

**110 Diwygiadau canlyniadol**

Mae Rhan 2 o Atodlen 3 yn gwneud diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â'r Rhan hon.

## Deddf Cartrefi Symudol 2013

### RHAN 5

#### PWERAU AWDURDODAU LLEOL

#### 56 Pŵer i ddarparu safleoedd i gartrefi symudol

- (1) Gall awdurdod lleol o fewn ei ardal ddarparu safleoedd lle y gellir dod â chartrefi symudol, boed at wyliau neu at ddibenion dros dro eraill neu i'w defnyddio'n breswylfeydd parhaol, a chânt reoli'r safleoedd neu eu lesio i berson arall.
- (2) Mae gan awdurdod lleol bŵer i wneud unrhyw beth y mae'n ymddangos iddo ei fod yn ddymunol mewn cysylltiad â darparu safleoedd o'r fath ac mae'r pethau y mae ganddo bŵer i'w gwneud yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) -
  - (a) caffael tir sy'n cael ei ddefnyddio fel safle i gartrefi symudol neu sydd wedi ei osod allan fel safle i gartrefi symudol,
  - (b) darparu unrhyw wasanaethau er eu hiechyd neu er eu cyfleuster i'w defnyddio gan y rhai sy'n meddiannu safleoedd cartrefi symudol, ac
  - (c) darparu lle gweithio a chyfleusterau i gynnal gweithgareddau y maent yn arfer eu cynnal, mewn safleoedd ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr neu mewn cysylltiad â'r safleoedd hynny.
- (3) Wrth arfer ei bwerau o dan yr adran hon rhaid i awdurdod lleol roi sylw i unrhyw safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 10.
- (4) Cyn arfer y pŵer o dan is-adran (1) i ddarparu safle rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub –
  - (a) o ran mesurau sydd i'w cymryd i atal a chanfod tân ar y safle, a
  - (b) o ran darparu a chynnal a chadw dulliau ymladd tân arno.
- (5) Rhaid i awdurdod lleol godi unrhyw daliadau rhesymol y bydd yn penderfynu arnynt mewn perthynas â safleoedd a reolir ganddo, ac ag unrhyw wasanaethau neu gyfleusterau a ddarperir neu y trefnir eu bod ar gael o dan yr adran hon.
- (6) Caiff awdurdod lleol drefnu bod gwasanaethau a chyfleusterau a ddarperir o dan yr adran hon ar gael i bersonau p'un a ydynt yn byw fel arfer yn ei ardal neu beidio.
- (7) Caiff awdurdod lleol, os yw'n ymddangos iddo –
  - (a) bod angen safle i gartrefi symudol neu safle ychwanegol i gartrefi symudol yn ei ardal, neu
  - (b) y dylai'r awdurdod lleol gymryd drosodd tir sy'n cael ei ddefnyddio fel safle i gartrefi symudol er lles defnyddwyr cartrefi symudol lleol, gaffael tir, neu unrhyw fuddiant yn y tir, yn orfodol.
- (8) Nid yw'r pŵer a roddir gan is-adran (7) yn arferadwy mewn unrhyw achos penodol ond os yw'r awdurdod lleol wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru i'w arfer.
- (9) Mae Deddf Caffael Tir 1981 yn effeithiol o ran caffael tir, neu fuddiant mewn tir, o dan is-adran (7).
- (10) Nid oes gan awdurdod lleol bŵer o dan yr adran hon i ddarparu cartrefi symudol.

## Holiadur

## ADRAN A – EICH CARTREF

## A1 Ble ydych chi'n byw ar hyn o bryd?

Safle preswyl Awdurdod Lleol ("Cyngor")	
Safe tramwy Cyngor	
Safle preifat gyda chaniatâd cynllunio	
Safle preifat heb ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd	
Gwersyllfa diawdurdod	
Tŷ brics a mortar – rhent cymdeithasol	
Tŷ brics a mortar – rhentu'n breifat	
Tŷ brics a mortar – perchen-feddiannydd	

## A2 Ydych chi yn fodlon gyda'ch llefy presennol?

Ydw	
Na	
Dewis peidio dweud	

Os 'na' esboniwch beth fedrid ei wella:

## A3 A fedrwnch ddweud wrthyf pam eich bod yn byw yma?

Cysylltiadau lleol (teulu neu waith)	
Dim llain arall wedi ei awdurdodi	
Methu dod o hyd i dŷ i symud iddo	
Rhesymau iechyd neu oedran	
Mae'n well gennyf dai na charafanau	
Arall:	

## A4 Pa mor hir ydych chi wedi byw yma?

Llai na 1 mis	1–6 mis	7 – 12 mis	1 - 2 flwyddyn	2-5 flwyddyn	Dros 5 mlynedd

**A5 Os ydych wedi symud o fewn y flwyddyn ddiwethaf, a oedd eich cartref diwethaf yn yr Awdurdod Lleol yma?**

**OEDD / NA**

Rhowch y manylion isod os gwelwch yn dda:

Math llety	A oedd ganddo ganiatâd cynllunio?	Ym mha Awdurdod Lleol?	Pam wnaethoch chi adael?

**A6 Pa mor hir ydych chi'n feddwl y byddwch yn aros yma?**

1 neu 2 ddiwrnod	3 – 28 diwrnod	1 – 3 mis	3 mis – 2 flynedd	2 – 5 flynedd	Dros 5 mlynedd	Dim yn bwriadu symud	Dim yn gwybod

**A7 A fydddech yn medru aros yn hirach pe byddai newidiadau neu welliannau yn cael eu gwneud i'ch llety presennol?**

*(Nodyn: Efallai na fydd yr Awdurdod Lleol yn medru gwneud y gwelliannau hyn ond gall deall y problemau gyda'ch llety helpu)*

**IE**

**NA**

Rheswm	Ticiwch
Angen gwaith trwsio	
Angen gwneud y safle yn fwy o ran maint	
Angen gwneud y llety yn fwy diogel	
Cael caniatâd cynllunio	
Angen gwaith addasu (nodwch isod)	

Arall:

Rheswm	Ticiwch
Dim ond mynd trwodd	
Eisiau llain awdurdodedig mewn ardal arall	
Eisiau symud i dŷ	
Perthynas wedi chwalu	
Mae'n well gennyf fyw mewn carafan	

**ADRAN B – EICH TEULU**

	Perthynas i'r ymatebydd (e.e. priod, mab/merch ac yn y blaen))	Oed	Rhyw	Romani / Teithiwr Gwyddelig / Teithiwr Newydd / Siewmon/ Roma / Arall (Hunan-ddynodi)	A oes unrhyw resymau pam na allwch barhau i fyw yn y llety yma? (rhowch fanylion)
Ymatebydd					

Person 2					
Person 3					

Os nad ydych yn byw mewn carafan, ewch i B4

**B2 Os ydych yn byw mewn carafan, a oes digon o fannau cysgu ar gyfer pawb sy'n byw ynddi?**

**OES / NA**

**B3 A oes lle ar y llain ar gyfer trelar ychwanegol i atal gorlenwi?**

*(Nodyn: mae canllawiau yn awgrymu dylai fod bwlch o 6 metr rhwng trelars a bwlch o 3 metr i ffiniau i fedru rhoi darpariaeth ddiogel ar lain)*

**OES / NA**

**Os oes, faint o ardaloedd cysgu ychwanegol y gellir eu hychwanegu?**

**B4 A fyddai unrhyw un yn eich teulu yn hoffi ymuno â rhestr aros yr Awdurdod Lleol i gael lleiniau neu dŷ?**

**BYDDAI / NA**

**Rhowch gyfeiriad isod ar gyfer postio pecyn cais?**

*Nodwch isod os ydych/dynt eisoes ar restr aros a pha un.*

### ADRAN C – EICH CYNLLUNIAU

**C1 Ydych chi'n bwriadu symud i lety arall?**

Ydw	<b>Ewch i C2</b>	
Na	<b>Ewch i D1</b>	
Dewis peidio dweud	<b>Ewch i D1</b>	

**C2 I ble ydych chi'n bwriadu symud iddo?**

O fewn yr Awdurdod Lleol	
Awdurdod Lleol arall yng Nghymru – nodwch pa un:	
Rhywle arall yn y Deyrnas Unedig	

**C3 Pam eich bod chi'n bwriadu symud?**

Angen mwy o le	
Angen cyfleusterau gwahanol	
Cysylltiad lleol (teulu neu waith)	

Angen fod yn nes at wasanaethau – ysgolion ac yn y blaen (Rhowch fanylion isod)	
Cyfleoedd cyflogaeth	
Arall (Nodwch isod)	

Gwasanaethau:

Arall:

--	--

**C4 I ba fath o lety ydych chi'n bwriadu symud iddo?**

1. Safle	
Cyngor / Rhent cymdeithasol	
Safle preifat yr wyf i yn berchen arno	
Safle preifat y mae rhywun arall yn berchen arno	

2. Tai Brics a Mortar	
Perchen-feddiannydd	
Rhentu gan y Cyngor/Cymdeithas Tai	
Rhentu gan landlord preifat	

**C5 Ydych chi'n berchen tir yn yr Awdurdod Lleol yr hoffech iddo gael ei ystyried fel safle posibl ar gyfer y dyfodol?**

(Nodyn: Y cyfwelydd i esbonio nad oes unrhyw warant y caiff y safle ei ddyrannu neu ei ddatblygu ond y gall swyddogion cynllunio gysylltu â'r ymatebydd i drafod eu sefyllfa a chynnig cymorth)

Ydw	<b>Rhowch fanylion isod</b>	
Na	<b>Ewch i C6</b>	
Dewis peidio dweud	<b>Ewch i C6</b>	

Os byddech yn hoffi i'r Awdurdod Lleol drafod y cynlluniau hyn gyda chi, rhowch y manylion cyswllt isod:

--

		BYDDWN	NA
C6	Os ydych yn edrych am lain awdurdodedig, fyddech chi yn byw ar safle a gaiff ei rheoli gan yr Awdurdod Lleol pe byddech yn cael cynnig un?		
C7	Pe byddai safle awdurdodedig ar gael mewn Awdurdod Lleol arall, fyddech chi yn ystyried symud yno? Os 'byddech', pa Awdurdodau Lleol?		

**ADRAN D – TWF TEULU**

**D1 A yw'n debygol y bydd rhywun arall yn eich aelwyd eisiau symud i'w cartref eu hunain yn y 5 mlynedd nesaf?**

Ydi	<b>Ewch i D2</b>	
-----	------------------	--

Na	<i>Ewch i D4</i>	
Dim yn gwybod	<i>Ewch i D4</i>	
Dewis peidio dweud	<i>Ewch i D4</i>	

**D2 A fyddai hyn yn yr Awdurdod Lleol yma?**

Byddai	<i>Ewch i D3</i>	
Na	<i>Ewch i D4</i>	
Dewis peidio dweud	<i>Ewch i D4</i>	

**D3 Faint o aelwydydd newydd fydd yna a phryd fydd eu hangen?**

	Math llety (safle ALI; safle preifat; tŷ brics a mortar)	Faint o bobl	Nawr	O fewn blwyddyn	1-2 blwyddyn	2-5 blwyddyn
Aelwyd 1						
Aelwyd 2						
Aelwyd 3						
Aelwyd 4						

**D4 A oes gennych unrhyw aelodau eraill o'ch teulu yn byw tu allan i'r ardal hon sy'n gwersylla yn rheolaidd yn yr Awdurdod Lleol yma?**

Oes	<i>Ewch i D5</i>	
Na	<i>Ewch i E1</i>	
Dim yn gwybod	<i>Ewch i E1</i>	
Dewis peidio dweud	<i>Ewch i E1</i>	

**D5 Os hoffent gael eu cyfworld am yr angen am leiniau, rhowch eich manylion cyswllt a'r awdurdod lleol lle mae'n byw ar hyn o bryd:**

**ADRAN E – SAFLEOEDD TRAMWY**

**E1 Ydych chi wedi gwersylla wrth ochr y ffordd / mewn gwersyll anawdurdodedig / ar safle tramwy yng Nghymru tra'n teithio yn y flwyddyn ddiwethaf?**

*(Prompt: dim ond os oes angen mwy o safleoedd tramwy y caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio)*

Do	<i>Ewch i E2</i>	
Na	<i>Ewch i E4</i>	
Dewis peidio dweud	<i>Ewch i E4</i>	

**E2** Ym mha ardaloedd Awdurdod Lleol ydych chi wedi gwersylla?

Dewis peidio dweud	

**E3** Pa mor hir fyddech chi'n aros mewn un lle fel arfer wrth deithio?

1 – 2 diwrnod	3 diwrnod – 1 wythnos	1 – 2 wythnos	2 wythnos – 1 mis	1 – 3 mis

**E4** Ydychh chi'n meddwl fod angen mwy o safleoedd tramwy yng Nghymru?

Ydw	<b><i>Ewch i E5</i></b>	
Na	<b><i>Diwedd holiadur</i></b>	
Dewis peidio dweud	<b><i>Diwedd holiadur</i></b>	

**E5** Ble mae eu hangen?

*(Holi am awdurdodau lleol a manau penodol)*

Dewis peidio dweud	

***Diwedd yr holiadur.***



**Cynllun Datblygu Lleol, Polisi H8, Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol****Polisi H8 - Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol**

Lle nodir bod angen lleiniau tramwy neu barhaol ar gyfer anghenion llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol, cânt eu caniatáu:

- a) os byddent yn galluogi diwallu'r angen a sefydlwyd mewn lleoliad sy'n hygyrch i ysgolion, siopau a gofal iechyd, ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar droed neu ar feic;
- b) os byddai ganddynt fynediad diogel a chyfleus i'r rhwydwaith priffyrdd ac na fyddant yn achosi tagfeydd traffig neu broblemau diogelwch;
- c) os ydynt o faint addas i ganiatáu ar gyfer y nifer a fwriedir o garafanau, blociau amwynder, ardal chwarae (ar gyfer plant ar safleoedd lle mae teuluoedd lluosog), y ffordd fynediad ac yn cynnwys digon o le ar gyfer parcio a chylchrediad diogel pob cerbyd yn gysylltiedig gyda meddianwyr o fewn cwrttil y safle;
- d) os nad ydynt yn defnyddio lleoliad amlwg ac yn gydnaws gyda pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer gwarchod a gwella cymeriad ac agweddau neilltuol y tirwedd a'r amgylchedd. Lle bo angen, bydd y cynnig yn cynnwys mesurau lliniaru i ostwng yr effaith, a chynnwys y cynnig i'w amgylchiadau e.e. sgrinio a thirlunio
- e) os ydynt yn osgoi ardaloedd mewn risg uchel o lifogydd ac yn agos at ddefnyddiau gyda ffynonellau posibl o lygredd neu allyriadau;
- f) os ydynt o faint priodol i'w lleoliad ac nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar amwynderau defnyddiau tir cyfagos;
- g) os ydynt yn cael eu gwasanaethu, neu y gallant gael eu gwasanaethu, gan wasanaethau digonol ar-safle ar gyfer cyflenwad dŵr, pŵer, draeniad, cael gwared â charthffosiaeth a dŵr (storio a chasglu) ac ar gyfer Siewmyn Teithiol fod ardal wastad ar gyfer storio awyr agored a chynnal a chadw offer.

Bydd cynigion ar gyfer defnydd tir ar gyfer lleiniau argyfwng 1 i ateb angen a brofwyd ar gyfer ei ddefnyddio gan sipsiwn a theithwyr yn darparu cyfleusterau sylfaenol, ateb meini prawf b, d, e a f 5 y polisi a dylai'r lleoliad fod o fewn pellter teithio rhesymol i anheddiad gyda gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol, yn cynnwys iechyd ac addysg.

## Diffiniad o Dermau a Chysyniadau Allweddol\*

\*Ffynhonnell – Canllawiau Llywodraeth Cymru ‘Cynnal Asesiadau o anghenion Llety a Theithwyr’ (Mai 2015)

**Safle preswyl** – Gall safle preswyl parhaol fod o dan berchenogaeth breifat neu berchenogaeth Awdurdod Lleol. Bydd y safle hwn wedi'i ddynodi i'w ddefnyddio fel safle Sipsiwn a Theithwyr am gyfnod amhenodol. Gall preswylwyr y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau cyhyd ag y byddant yn cadw at delerau eu cytundebau llain, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Gellir darparu lle gweithio hefyd ar neu ger safleoedd ar gyfer cynnal gweithgareddau gan aelodau'r gymuned.

**Safle preswyl dros dro** – Mae'r safleoedd hyn yn safleoedd preswyl y rhoddwyd caniatâd cynllunio neu drwydded safle ar eu cyfer am gyfnod penodol cyfyngedig. Gall preswylwyr y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau dros gyfnod y caniatâd cynllunio neu drwydded safle (neu cyhyd ag y byddant yn cadw at delerau eu cytundeb llain, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 – pa bynnag gyfnod sydd fyrhaf).

**Safle tramwy** – Safleoedd tramwy yw'r cyfleusterau parhaol sydd wedi'u bwriadu i'w defnyddio dros dro gan feddianwyr. Rhaid dynodi'r safleoedd hyn a rhaid iddynt gynnig ffordd i Sipsiwn a Theithwyr barhau â ffordd nomadig o fyw. Caniateir i feddianwyr unigol breswyl ar y safle am 3 mis ar y tro ar y mwyaf. Mae telerau penodol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn gymwys i'r safleoedd hyn. Gellir darparu lle gweithio hefyd ar neu ger safleoedd ar gyfer cynnal gweithgareddau gan aelodau'r gymuned.

**Man aros dros dro** – Rhai o'r enwau eraill arno yw 'gwersyll' neu 'Atchin Tan' Mae'r rhain i'w defnyddio dros y tymor byr i helpu Awdurdodau Lleol lle y derbynir bod angen lleiniau ond nad oes dim ar gael ar y pryd. Gellir adleoli gwersylloedd mewn lleoedd amhriodol i fannau aros dros dro sydd wedi'u pennu ymlaen llaw wrth baratoi safleoedd eraill. Rhaid darparu ar gyfer gwaredu gwastraff, cyflenwi dŵr a glanweithdra ar fannau aros dros dro.

**Llain breswyl** – Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am gyfnod amhenodol (oni bai fod eu cytundeb llain yn nodi fel arall). Fel arfer bydd yn cynnwys bloc amwynderau, lle ar gyfer carafán sefydlog a charafán deithiol a lle parcio.

**Llain dramwy** – Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am 3 mis ar y mwyaf. Gellir cael lleiniau tramwy ar safleoedd preswyl parhaol ond nid yw hyn yn cael ei argymhell.

**Gwersyll diawdurdod** – Tir wedi'i feddiannu heb ganiatâd y perchennog heb gael y caniatâd cynllunio sydd ei angen i ddefnyddio'r tir.

**Datblygiad diawdurdod** – Tir wedi'i feddiannu gan y perchennog heb gael y caniatâd cynllunio sydd ei angen i ddefnyddio'r tir.

**Cyflenwad presennol o leiniau preswyl** – Nifer y lleiniau awdurdodedig sydd ar gael ac wedi'u meddiannu o fewn ardal yr Awdurdod Lleol neu bartneriaeth. Mae hyn yn cynnwys lleiniau ar safleoedd Awdurdod Lleol a safleoedd preifat.

**Galw presennol am leiniau preswyl** – Y rheini y mae angen lleiniau awdurdodedig arnynt am wahanol resymau, gan gynnwys:

- anallu i sicrhau llain awdurdodedig sydd wedi arwain at feddiannu gwersylloedd diawdurdod;
- anallu i sicrhau caniatâd cynllunio cywir ar gyfer datblygiad diawdurdod;
- aelwydydd sy'n profi gorlenwi ac sydd am gael llain;
- aelwydydd mewn tai confensiynol sy'n dangos gwrthwynebiad diwylliannol;
- aelwydydd newydd y disgwylir iddynt gyrraedd o leoedd eraill.
- galw am leiniau presennol yn y dyfodol – nifer yr aelwydydd y disgwylir iddynt ffurfio a fydd yn creu mwy o alw o fewn cyfnod 5 mlynedd yr asesiad o lety a chyfnod hirach y Cynllun Datblygu Lleol.

**Cyfanswm yr angen am leiniau preswyl** – Y cyfnod terfynol o anghenion llety sydd heb eu diwallu sydd i'w bennu drwy broses yr asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Gellir cyfrifo'r ffigur hwn drwy adio'r angen presennol am leiniau preswyl at y galw am leiniau preswyl yn y dyfodol. Bydd cyfanswm yr angen am leiniau preswyl yn dangos yr anghenion dros y cyfnod 5 mlynedd y mae'r asesiad o lety'n cael ei ystyried yn ddibynadwy.

**Cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl:** Nifer y lleiniau awdurdodedig sy'n wag ac sydd ar gael i'w rhentu ar safleoedd Awdurdod Lleol a safleoedd preifat. Mae hefyd yn cynnwys lleiniau a fydd yn wag yn y dyfodol agos am fod aelwydydd wedi symud i dai confensiynol neu oherwydd amgylchiadau eraill. Dylid cynnwys lleiniau ychwanegol y disgwylir iddynt agor a safleoedd preifat sy'n debygol o gael caniatâd cynllunio yn y cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl.

**Aelwyd:** Yn y canllawiau hyn mae'n golygu unigolion o'r un teulu sy'n byw gyda'i gilydd ar un llain neu mewn un tŷ/gwersyll.

**Aelwyd gudd neu ddwbl:** Mae hyn yn golygu aelwydydd sy'n methu â chael eu llety awdurdodedig eu hunain ac sy'n byw yn lle hynny mewn llety awdurdodedig (tai neu leiniau) sydd wedi'i aseinio i aelwyd eraill. Gall hyn gynnwys plant sydd bellach yn oedolion sydd wedi methu â symud i'w cartref eu hunain neu aelwydydd gwahanol sy'n meddiannu un llain.

**Twf mewn aelwydydd:** Y diffiniad o dwf mewn aelwydydd yn y canllawiau hyn yw nifer yr aelwydydd newydd sy'n deillio o aelwydydd sydd eisoes mewn llety yn yr ardal.



## Nodyn Technegol

# Cyfraddau Ffurio a Thwf Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr

**Mehefin 2020**

**Opinion Research Services**



Fel gyda'n holl astudiaethau, mae'r ymchwil hwn yn ddarostyngedig i Delerau ac Amodau Safonol Contract Opinion Research Services.

Mae unrhyw ddatganiad i'r wasg neu gyhoeddi'r ymchwil hwn angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan ORS. Dim ond ar seiliau anghywirdeb neu gamgynrychiolaeth y caiff cymeradwyaeth o'r fath ei wrthod.

© Hawlfraint Mehefin 2020

# Cynnwys

Cynnwys.....	36
Cyfraddau Twf Aelwydydd.....	37
Crynodeb a Chasgliadau.....	37
Cyflwyniad.....	37
Modelu Cyfraddau Twf Poblogaeth ac Aelwydydd.....	37
Effeithiau Mudo.....	37
Proffil Poblogaeth.....	37
Cyfraddau Genediaeth a Ffrwythlondeb.....	38
Cyfraddau Marwolaeth.....	39
Allbynnau Modelu.....	39
Twf Aelodaeth.....	39
Crynodeb o'r Casgliadau.....	41

# Cyfraddau Twf Aelwydydd

## Crynodeb a Chasgliadau

1. Mae cyfraddau ffurfio a thwf cenedlaethol a lleol mewn ffurfio a thwf aelwydydd yn elfennau pwysig o asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr, ond tan 2013 ychydig o waith manwl oedd wedi ei wneud i asesu eu maint debygol. Cynhaliodd ORS waith yn 2013 i asesu cyfradd debygol twf demograffig ar gyfer y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr a daeth i'r casgliad y gallai'r ffigur fod mor isel â 1.25% y flwyddyn, ond bod y dystiolaeth orau sydd ar gael yn cefnogi cyfradd dwf aelwydydd net genedlaethol o 1.50% y flwyddyn.
2. Cafodd y dadansoddiad hwn ei gynhyrchu fel dogfen ar wahân yn 2013 a chafodd wedyn ei diweddarau yn 2015 ([www.opinionresearch.co.uk/formation2015](http://www.opinionresearch.co.uk/formation2015)) yn dilyn sylwadau gan academyddion, asiantau cynllunio ac awdurdodau lleol. Roedd dogfen 2015 yn gymhleth oherwydd bod anghydfod difrifol yn dal i fod am lefel y twf demograffig ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn 2015. Fodd bynnag, mae ORS yn awr yn ystyried y cafodd yr anghydfod hwn ei datrys i raddau helaeth mewn Apeliadau Cynllunio ac Archwiliadau Cynlluniau Lleol, felly ystyriwn nad oes angen i lawer o'r dystiolaeth gefnogi fod yn y ddogfen bellach.
3. Mae'r ddogfen gyfredol hon yn cynrychioli ail-ddatganiad byrrach o'n canfyddiadau yn 2015 i'w gwneud yn haws deall y materion sy'n gysylltiedig. Nid yw'n cynnwys unrhyw ymchwil newydd ac os yw'r darlennydd yn dymuno gweld manylion pellach am yr wybodaeth gefnogi, dylent adolygu adroddiad mwy manwl 2015.

## Cyflwyniad

4. O gymharu gyda'r boblogaeth gyffredinol, mae ieuencid cymharol llawer o boblogaethau Sipsiwn a Theithwyr yn golygu fod eu cyfraddau genedigaeth yn debygol o gynhyrchu twf poblogaeth uwch na'r cyfartalog, a chyfraddau ffurfio aelwydydd crynswth cymharol uwch. Fodd bynnag, er y gallai cyfradd crynswth twf aelwydydd fod yn uchel, yn ymarferol caiff anghenion dyfodol llety Sipsiwn a Theithwyr eu heffeithio gan unrhyw ostyngiad yn nifer yr aelwydydd oherwydd chwalu a/neu gan symud i mewn/allan o'r ardal a/neu drwy drosglwyddo i fathau eraill o dai. Felly y gyfradd *net* o dwf aelwydydd yw cyfradd grynswth ffurfio *llai* unrhyw ostyngiadau mewn nifer aelwydydd oherwydd ffactorau o'r fath.

## Modelu Cyfraddau Twf Poblogaeth ac Aelwydydd

5. Mae'r hafaliad sylfaenol ar gyfer cyfrifo cyfradd twf poblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn ymddangos yn syml: dechrau gyda'r boblogaeth sylfaen ac wedyn gyfrif y cynnydd/gostyngiad cyfartalog drwy ganiatáu ar gyfer marwolaethau, priodasau, mewnfudo ac allfudo a chwalu aelwydydd. Serch hynny, mae deillio amcangyfrifon boddhaol yn anodd oherwydd fod y dystiolaeth yn aml yn denau – felly, yn y cyd-destun hwn yn 2013, fe wnaeth ORS fodelu twf y boblogaeth genedlaethol o Sipsiwn a Theithwyr yn seiliedig ar y cyfraddau genedigaeth a marwolaeth mwyaf tebygol, a drwy ddefnyddio PopGroup (y prif fath o feddalwedd ar gyfer rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd). I wneud hyn, fe wnaethom atodi'r ffynonellau ystadegol cenedlaethol oedd ar gael gyda data yn deillio o'n harolygon ein hunain.

## Effeithiau Mudo

6. Mae mudo net cenedlaethol a mudo lleol (wrth i Sipsiwn a Theithwyr symud o un ardal i un arall) yn effeithio ar dwf poblogaeth. Yn nhermau mudo cenedlaethol, mae'r boblogaeth o Sipsiwn a Theithwyr yn gymharol sefydlog, heb fawr o fudo rhyngwladol. Mewn egwyddor, mae'n bosibl i Deithwyr Gwyddelig (yn seiliedig yn Iwerddon) i symud i'r Deyrnas Unedig ond nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn yn digwydd i raddfa sylfaenol a chafodd mwyafrif helaeth y Teithwyr Gwyddelig eu geni yn y Deyrnas Unedig neu yn breswylwyr hirdymor yma.

## Proffil y Boblogaeth

7. Y brif ffynhonnell ar gyfer cyfradd twf poblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yw Cyfrifiad 2011 y Deyrnas Unedig. Am y tro cyntaf roedd y cwestiwn ethnigrwydd yng Nghyfrifiad 2011 yn cynnwys 'Sipsiwn a Theithwyr Gwledig' fel categori penodol. Er ei bod yn debyg fod tueddiad dim ymateb yn golygu y cafodd maint y boblogaeth ei nodi'n ddigonol, nid yw proffil oedran y Cyfrifiad o reidrwydd wedi ei ystumio ac mae'n cyfateb y proffil a gafwyd o arolygon helaeth yr ORS ar aelwydydd.

Tabl 1 – Proffil Oedran y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn Lloegr (Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2011 y Deyrnas Unedig)

Grŵp Oedran	Nifer Pobl	Canran Cronnus
0 i 4 oed	5,725	10.4
5 i 7 oed	3,219	16.3
8 i 9 oed	2,006	19.9
10 i 14 oed	5,431	29.8
15 oed	1,089	31.8
16 i 17 oed	2,145	35.7
18 i 19 oed	1,750	38.9
20 i 24 oed	4,464	47.1
25 i 29 oed	4,189	54.7
30 i 34 oed	3,833	61.7
35 i 39 oed	3,779	68.5
40 i 44 oed	3,828	75.5
45 i 49 oed	3,547	82.0
50 i 54 oed	2,811	87.1
55 i 59 oed	2,074	90.9
60 i 64 oed	1,758	94.1
65 i 69 oed	1,215	96.3
70 i 74 oed	905	97.9
75 i 79 oed	594	99.0
80 i 84 oed	303	99.6
86 oed a throsodd	230	100.0

### Cyfraddau Genedigaeth a Ffrwythlondeb

8. Mae'r tabl uchod yn rhoi ffordd o ddeall twf poblogaeth drwy enedigaethau. Dengys y tabl fod plant wedi goroesi 0-4 oed yn ffurfio 10.4% o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr – sy'n golygu, ar gyfartaledd, y cafodd 2.1% o'r cyfanswm poblogaeth eu geni bob blwyddyn (dros y 5 mlynedd ddiwethaf). Cafodd yr un amcangyfrif ei gadarnhau os ystyriwn bod y rhai 0-14 oed yn ffurfio 29.8% o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr – sydd hefyd yn golygu y cafodd bron yn union 2% o'r boblogaeth ei geni bob blwyddyn.
9. Mae cyfanswm cyfradd ffrwythlondeb (TFR( holl boblogaeth y Deyrnas Unedig ychydig dan 2 – sy'n golygu y gellir disgwyl i bob menyw ar gyfartaledd gael ychydig llai na dau o blant sy'n cyrraedd oed oedolyn. Dim ond am un amcangyfrif arall o gyfraddau ffrwythlondeb cymuned Sipsiwn a Theithwyr y gwyddom amdani, sef yn *Ethnic identity and inequalities in Britain: The dynamics of diversity'* gan yr Dr Stephen Jivraj a'r Athro Ludi Simpson (cyhoeddwyd ym mis Mai 2015). Mae'r awduron yn defnyddio data Cyfrifiad 2011 i amcangyfrif y TFR ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr fel 2.75.

10. Defnyddiodd ORS ei ddata arolwg lluosog ei hun i ymchwilio cyfraddau ffrwythlondeb Sipsiwn a Theithwyr benyw. Dengys data yr ORS fod gan fenywod Sipsiwn a Theithwyr 32 oed 2.5 o blant ar gyfartaledd (ond oherwydd bod plant mamau yr oedran hwn yn tueddu i adael adref yn gynyddol, ni chafodd TFR llawn eu cwblhau). Ar y sail hon mae'n rhesymol i gasglu bod cyfartaledd o 3 plentyn fesul menyw yn ystod ei hoes, sy'n fras gyda'r gyson gyda'r amcangyfrif o 2.75 o blant fesul menyw yn deillio o Gyfrifiad 2011.

### Cyfraddau Marwolaeth

11. Er bod y data uchod yn awgrymu cyfradd twf blynyddol drwy enedigaethau o tua 2%, mae hefyd yn rhaid ystyried y gyfradd marwolaeth. Er fod y disgwyliad oes cyfartalog ar draws holl boblogaeth y Deyrnas Unedig dros 80 oed ar hyn o bryd, canfu astudiaeth gan Brifysgol Sheffield fod disgwyliad oes Sipsiwn a Theithwyr tua 10-12 blynedd yn is na'r cyfartalog (Parry et al (2004) '*The Health Status of Gypsies and Travellers: Report of Department of Health Inequalities in Health Research Initiative*', Prifysgol Sheffield).
12. Felly, yn ein modelu twf poblogaeth fe wnaethom ddefnyddio amcangyfrif ceidwadol o ddisgwyliad oes cyfartalog o 72 mlynedd – sydd yn hollol gyson gyda nifer llai na'r cyfartalog o Sipsiwn a Theithwyr dros 70 oed yng Nghyfrifiad 2011 (a hefyd yn nata arolwg yr ORS ei hun).

### Allbynnau Modelu

13. Os tybiwn TFR o 3 a disgwyliad oes cyfartalog o 72 mlynedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, yna mae'r modelu gan PopGroup yn amcanestyn y bydd y boblogaeth yn cynyddu gan 66% dros y 40 mlynedd nesaf – gan olygu cyfradd twf gyfansawdd poblogaeth o 1.2% y flwyddyn. Os tybiwn fod disgwyliad oes Sipsiwn a Theithwyr yn cynyddu i 77 mlynedd erbyn 2050, yna mae'r gyfradd twf amcanol yn y boblogaeth yn cynyddu i bron 1.50% y flwyddyn. I roi cyfradd 'ystod uchaf' o dwf poblogaeth, fe wnaethom dybio TFR annhebygol o 4 a disgwyliad oes cyfartalog yn codi i 77 dros y 40 mlynedd nesaf – sydd wedyn yn rhoi 'ystod uchaf' cyfradd twf o 1.90% y flwyddyn.

### Twf Aelwydydd

14. Yn ogystal â thwf poblogaeth yn dylanwadu ar nifer yr aelwydydd, mae maint aelwydydd hefyd yn effeithio ar y nifer. Felly, nid yw cyfraddau twf poblogaeth ac aelwydydd o reidrwydd yn cyfateb yn uniongyrchol, yn bennaf oherwydd y tueddiad cyfredol i bobl fyw mewn aelwydydd llai heb blant neu aelwydydd person sengl.
15. Oherwydd fod y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn gymharol ifanc a gyda llawer o aelwydydd un rhiant, gallai twf poblogaeth blynyddol o 1.25%-1.50% roi cyfraddau twf aelwydydd uwch na'r cyfartalog, yn neilltuoel os yw maint cyfartalog aelwydydd yn gostwng neu os oes aelwydydd iau na'r cyfartalog yn ffurfio. Fodd bynnag, er fod tystiolaeth fod aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr eisoes yn ffurfio o oedran iau nag yn y boblogaeth gyffredinol, mae'r cwmpas am gyfradd twf cyflymach yn gyfyngedig, er fod aelwydydd yn cael ei ffurfio'n gynharach.
16. Yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011, mae'r tabl isod yn cymharu oedran cynrychiolwyr aelwydydd yn aelwydydd Lloegr gyda'r rhai mewn aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr – gan ddangos fod gan Sipsiwn a Theithwyr lawer mwy o gynrychiolwyr aelwydydd dan 25 oed. Yn gyffredinol ym mhoblogaeth Lloegr mae 3.60% o gynrychiolwyr aelwydydd yn 16-24 oed, o gymharu gyda 8.70% yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr. Dengys data arolwg ORS fod gan tua 10% o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr gynrychiolwyr dan 25 oed.



Tabl 2 – Oedran Pennaeth Aelwyd (Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2011 )

Oedran cynrychiolydd aelwyd	Pob aelwyd yn Lloegr		Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn Lloegr	
	Nifer aelwydydd	Canran aelwydydd	Nifer aelwydydd	Canran aelwydydd
24 oed ac iau	790,974	3.6%	1,698	8.7%
25 i 34 oed	3,158,258	14.3%	4,232	21.7%
35 i 49 oed	6,563,651	29.7%	6,899	35.5%
50 i 64 oed	5,828,761	26.4%	4,310	22.2%
65 i 74 oed	2,764,474	12.5%	1,473	7.6%
75 i 84 oed	2,097,807	9.5%	682	3.5%
85 oed a throsodd	859,443	3.9%	164	0.8%
	Cyfanswm 22,063,368	100%	19,458	100%

17. Mae'r tabl dilynol yn dangos nad yw'r gyfran o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr person sengl yn annhebyg i'r boblogaeth ehangach yn Lloegr; ond mae llai o rieni unigol, llai o gyplau heb blant a llai o aelwydydd gyda phlant heb fod yn ddibynnol ymysg Sipsiwn a Theithwyr.

Tabl 3 – Math Aelwyd (Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth y Deyrnas Unedig 2011)

Math Aelwyd	Pob aelwyd yn Lloegr		Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn Lloegr	
	Nifer aelwydydd	Canran aelwydydd	Nifer aelwydydd	Canran aelwydydd
Person sengl	6,666,493	30.3%	5,741	29.5%
Cwpl heb blant	5,681,847	25.7%	2345	12.1%
Cwpl gyda phlant dibynnol	4,266,670	19.3%	3683	18.9%
Cwpl gyda phlant heb fod yn ddibynnol	1,342,841	6.1%	822	4.2%
Rhieni unigol – plant dibynnol	1,573,255	7.1%	3,949	20.3%
Rhieni unigol – plant heb fod yn ddibynnol	766,569	3.5%	795	4.1%
Aelwydydd eraill	1,765,693	8.0%	2,123	10.9%

18. Y pwynt allweddol, serch hynny, yw gan fod 20% o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn rhieni unigol gyda phlant dibynnol, a hyd at 30% yn bobl sengl, potensial cyfyngedig sydd ar gael gostyngiadau pellach mewn maint cyfartalog aelwydydd i gynyddu cyfradd ffurfio aelwydydd cyfredol yn sylweddol – ac nid oes unrhyw reswm dros gredu bod ffurfio aelwydydd yn gynharach neu gynydd mewn cyfraddau ysgaru yn effeithio yn y tymor canol ar gyfraddau ffurfio aelwydydd. Er nad oes unrhyw wahaniaethau gyda'r boblogaeth gyffredinol, mae'n debygol o byddai cyfradd dwf poblogaeth o a 1.25%-1.50% yn y flwyddyn ymysg Sipsiwn a Theithwyr yn debygol o arwain at gyfradd twf aelwydydd o 1.25% - 1.50% y flwyddyn.

### Crynodeb o'r Casgliadau

19. Mae'r dystiolaeth orau sydd ar gael yn awgrymu fod cyfradd twf net blynyddol aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn 1.50% y flwyddyn. Gallai rhai awdurdodau lleol alluogi cyfradd twf aelwydydd o hyd at 2.50% y flwyddyn, i roi 'ymyl' os yw eu poblogaethau yn gymharol ifanc; ond mewn ardaloedd lle mae arolygon ar y safle yn dangos fod llai o blant yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr, dylid defnyddio amcangyfrifon is.
20. Gellir defnyddio deilliannau'r Nodyn Technegol hwn i roi amcangyfrif o gyfraddau ffurfio aelwydydd newydd lleol drwy addasu'r gyfradd twf cenedlaethol uwch o 1.50% yn seiliedig ar nodweddion demograffig lleol.
21. Yn ychwanegol, mewn rhai amgylchiadau lle mae nifer yr aelwydydd a phlant yn uwch neu'n is na'r data cenedlaethol wedi dynodi, er y caiff y strwythur oedran poblogaeth ei wyro gan rai grwpiau oedran, efallai nad yw'n briodol i weithredu cyfradd canradd ar gyfer ffurfio aelwydydd newydd. Yn yr achosion hwn, dylid ffurfio barn ar ffurfio aelwydydd newydd tebygol yn seiliedig ar oedran a rhyw y plant a ddynodwyd mewn cyfweiliadau gydag aelwydydd lleol. Dylai hyn fod yn seiliedig ar y dybiaeth fod 50% o aelwydydd sy'n debygol o ffurfio yn debygol o aros mewn unrhyw ardal benodol ac y bydd 50% yn paru ac yn symud i ardal arall, tra'n dal i ystyried effaith chwalu aelwyd. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o dros 140 o Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a gynhaliodd ORS ar draws Cymru a Lloegr yn cynnwys dros 4,300 o gyfweiliadau gydag aelwydydd.